Rhif: WG34738

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

# Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd

Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 25 **Ebrill 2018**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78937-096-6

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Roedd yr ymgynghoriad wedi ceisio ymgysylltu â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb mewn rheoli dŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd. Mae hyn yn cynnwys datblygwyr, eu hasiantau a'u hymgynghorwyr, awdurdodau lleol, ymgymerwyr carthffosiaeth, rheoleiddwyr, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, a sefydliadau proffesiynol. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'n hymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 16 Tachwedd 2017 ar y Safonau Cenedlaethol a'r offerynnau statudol drafft sydd eu hangen i weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sy'n rhoi sylw i ddraenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd. Hefyd, mae'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad. |
| **Camau Angenrheidiol** | Dim – er gwybodaeth yn unig |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Dŵr<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: water@gov.wales<br>Ffôn: 03000 258302 |
| **Copïau ychwanegol** | Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn ymgynghoriadau.llyw.cymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Ceir rhagor o wybodaeth berthnasol yn:<br><br>http://gov.wales/topics/environmentcountryside<br><br>• Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy yng Nghymru, a<br><br>• Sustainable Drainage Systems on New Developments, Analysis of evidence including costs and benefits of SuDS construction and adoption(Environmental Policy Consulting, Ionawr 2017) |

# Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd

## Cynnwys

## Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad<br>Diben yr ymgynghoriad<br>Y cyfnod ymgynghori a dosbarthiad<br>Ymatebion<br>Ymateb Llywodraeth Cymru | 4 |
| Trosolwg | 6 |
| Ymatebion i gwestiynau unigol | 7 |
| Crynodeb o’r gweithdai | 48 |
| Y casgliadau a’r camau nesaf | 49 |

**Atodiadau:**
**A: Rhestr ymgynghori**
**B: Rhestr o’r holl ymatebwyr a sectorau**
**C: Rhestr o gwestiynau’r ymgynghoriad**

## Cyflwyniad

### 1. Diben yr ymgynghoriad

1.1 Ar 15 Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pellach ar weithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd.

Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/gweithredu-systemau-draenio-cynaliadwy-ar-ddatblygiadau-newydd-rheolau-drafft-safonau-cenedlaethol?_ga=2.31261498.488448121.1524561676-1315374186.1513678735

Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad rhwng mis Mai a mis Awst 2017 ar ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru o weithredu systemau draenio cynaliadwy (SuDS) effeithiol ar ddatblygiadau newydd. Roedd ymgynghoriad cynharach wedi cynnig gweithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf) fel fframwaith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu SuDS sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd.

Mae testun llawn yr ymgynghoriad ym mis Mai ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/gweithredu-systemau-draenio-cynaliadwy-ar-gyfer-datblygiadau-newydd?_ga=2.31261498.488448121.1524561676-1315374186.1513678735

1.2 Ar ôl pwyso a mesur yr ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pellach yn ceisio barn ar yr Offerynnau Statudol a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Draenio Cynaliadwy (Safonau SuDS) sydd eu hangen er mwyn gweithredu Atodlen 3 y Ddeddf.

### 2. Y cyfnod ymgynghori a dosbarthiad

2.1 Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos rhwng 15 Tachwedd 2017 a 12 Chwefror 2018. Cafodd ei ddosbarthu'n eang a'i gyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r rhestr ddosbarthu yn **Atodiad A**.


2.2 Hefyd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru dri gweithdy ymgynghori wedi'u hwyluso ledled Cymru i alluogi rhanddeiliaid i ddarparu rhagor o adborth. Anfonwyd gwahoddiadau i'r gweithdai hyn at ystod eang o randdeiliaid.

### 3. Ymatebion

3.1 Cafwyd 42 ymateb gan ystod o sectorau fel y gwelir yn Ffigur 1 (isod). O'r rhain, daeth pedwar ymateb i law ar ôl y terfyn amser, ond rydym wedi'u cynnwys. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a'r wybodaeth gysylltiedig am y sector yn **Atodiad B**.

3.2 Gofynnwyd 21 cwestiwn i gyd, gyda gofod i roi sylwadau ychwanegol i gefnogi pob ymateb. Ceir rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad yn **Atodiad C**. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi rhoi atebion uniongyrchol i'r cwestiynau, gyda llawer yn cynnig sylwadau ychwanegol i gefnogi hyn. Roedd Cwestiwn 21 yn gwestiwn agored, er mwyn rhoi cyfle i gynnig sylwadau perthnasol.

**Ffigur 1 – Ymatebion a dderbyniwyd fesul sector**




3.3 Roedd tua 120 o unigolion wedi mynychu gweithdai'r ymgynghoriad, gan roi manylion gwerthfawr i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb byr o'r adborth o'r gweithdai. Mae adroddiad llawn o'r gweithdai ar gael ar gais.

## 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

4.1 Roedd Llywodraeth Cymru yn fodlon iawn â'r ymgysylltiad cadarnhaol gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad hwn, yn ymatebion ysgrifenedig ac mewn cyfraniadau yn y gweithdai.

4.2 Mae gweithredu Atodlen 3 yn golygu newidiadau sylweddol i ddatblygwyr a'u hasiantau, i awdurdodau lleol ac i ymgymerwyr carthffosiaeth. Rydym wedi gweithio'n agos â'r sectorau hyn drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cyfraniadau.

4.3 Rydym wedi pwyso a mesur yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r sylwadau a wnaethpwyd yng ngweithdai'r ymgynghoriad. Cafodd y rhain eu cynnwys lle bo'n briodol yn yr offerynnau statudol drafft, yng Nghanllawiau'r Llywodraeth, ac yn y Safonau SuDS terfynol.

4.4 Rydym hefyd wedi parhau i adolygu'r offerynnau statudol yn dilyn cyngor cyfreithiol ac er mwyn eu symleiddio. O ganlyniad, maent yn cael eu hailwampio'n sylweddol ac mae'r wybodaeth am ffioedd wedi'i chynnwys mewn cyfres o reoliadau ar wahân.

4.5 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r rheini sydd wedi helpu i ddatblygu'r ddogfen hon a'r ymgynghoriadau blaenorol, yn ogystal â'r rhai a ymatebodd. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad y rheini a oedd yn rhan o'n Grŵp Cynghori.

## 5. Trosolwg

5.1 Rydym wedi pwyso a mesur yr holl ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad, yn ogystal â'r adborth o weithdai'r ymgynghoriad yn y crynodeb hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r rhan fwyaf o'n cynigion. Roedd sawl awdurdod lleol wedi mynegi pryder bod disgwyl iddynt roi proses gymeradwyo newydd ar waith ym mis Mai ac nad oeddent yn teimlo bod digon o amser ganddynt i baratoi ar gyfer hynny. Y farn oedd y byddai dyddiad cychwyn ym mis Tachwedd yn fwy cyraeddadwy. Fodd bynnag, roedd sawl ymateb wedi mynegi bod angen gweithredu ar frys, gan dynnu sylw at gyflymder y cynnydd mewn datblygiadau newydd a'r posibilrwydd o golli cyfle petai Atodlen 3 yn cael ei gohirio ymhellach.

5.2 Ceir crynodeb o'r atebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau yn yr adran nesaf, yn ogystal ag enghreifftiau o'r sylwadau unigol a oedd yn egluro'r atebion yn fanylach. Rydym hefyd wedi darparu crynodeb o'r wybodaeth a gasglwyd o'r gweithdai, a oedd yn cynnwys llawer o fanylion gwerthfawr. Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd am y Safonau SuDs. Felly, caiff y rhain eu cyhoeddi fwy neu lai heb newidiadau ochr yn ochr â'r offerynnau statudol.

5.3 Daeth y rhan fwyaf o ymatebion gan awdurdodau lleol, yn cynnwys gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn gyffredinol, roeddent yn cefnogi rhoi hyn ar waith yn hwyrach yn 2018 yn hytrach na'n gynharach yn y flwyddyn. Roeddent yn gofyn am chwe mis llawn rhwng cyflwyno'r ddeddfwriaeth a dod â'r ddeddfwriaeth i rym. Cafwyd ystod eang o safbwyntiau o ran yr heriau gweithredu. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â manylion arfaethedig y rheoliadau a'r gorchmynion yn ymwneud â phwerau mynediad, gorfodi a ffioedd. Gwnaethpwyd sawl sylw am ba mor gymhleth oedd y ffioedd yn seiliedig ar oriau a weithiwyd. Roedd rhai o'r ymatebion wedi mynegi pryder am yr amserlenni tynn ar gyfer gwneud penderfyniad, ymgynghori a'r gwaith gweinyddol. Roedd sawl ymateb wedi rhoi sylw i'r esemptiadau posibl, a'r farn gyffredinol oedd y dylid cael cyn lleied o esemptiadau â phosibl.

5.4 Roedd nifer fach o ymatebion wedi rhoi awgrymiadau manwl ar gyfer gwelliannau i'r offerynnau statudol drafft ac rydym wedi defnyddio'r rhain i wneud newidiadau, yn ogystal ag ymatebion i gwestiynau unigol penodol.

5.5 Roedd ymatebion gan y sector amaethyddol yn awgrymu na ddylai datblygiadau amaethyddol gael eu cynnwys o dan ofynion Atodlen 3.


## Ymatebion i gwestiynau unigol

### Cwestiwn 1

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu darpariaethau SuDS yn Neddf 2010 cyn gynted â phosibl. Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach hwn, rydym yn disgwyl cyflwyno'r ddeddfwriaeth i'r Cynulliad ym mis Mai 2018 a bod y ddeddfwriaeth yn dod i rym o fewn chwe mis.

**Cwestiwn 1**: Rydym yn bwriadu cychwyn Atodlen 3 yng Nghymru a chyflwyno'r Offerynnau Statudol cysylltiedig yn mis Mai 2018.
A ydych yn cytuno bod hyn yn rhesymol?
Os nad ydych, rhowch resymau.

### Ffigur 2




### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod yr amserlen arfaethedig yn rhesymol. Roedd sawl ymateb wedi dadlau bod angen gweithredu ar frys, gan dynnu sylw at gyflymder y cynnydd mewn datblygiadau newydd a'r posibilrwydd o golli cyfle petai Atodlen 3 yn cael ei gohirio ymhellach.

Roedd llawer o'r awdurdodau lleol yn credu y byddai gweithredu hyn chwe mis ar ôl cyflwyno'r offerynnau statudol ym mis Mai yn caniatáu digon o amser i sefydlu prosesau cymeradwyo newydd, er eu bod yn cydnabod bod yr amserlenni'n heriol. Fodd bynnag, roedd nifer wedi mynegi pryder gan ofyn am fwy o amser i gael mwy o eglurder am faterion trefniadaethol, am y broses ac am faterion yn ymwneud ag ariannu hyn. Roedd rhai ymgyngoreion statudol wedi mynegi pryder am effaith y llwyth gwaith posibl arnynt a'u gallu i ymateb yn brydlon. Roedd datblygwyr wedi yn gofyn am gyhoeddi'r holl ganllawiau ac unrhyw waith papur sy'n gysylltiedig â'r broses, fel y ffurflenni cais, cyn cychwyn.

Roedd nifer o'r ymatebion yn pwysleisio materion yn ymwneud â sgiliau staff, a'r angen am hyfforddiant a chymorth gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd pwysigrwydd y canllawiau a chael dull gweithredu cyson ledled Cymru yn thema gyffredin yn yr ymatebion.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Mae angen cyfleu elfen o frys oherwydd bod cyflymder datblygiadau yng Nghymru yn cynyddu" Corff Proffesiynol*

*"Mae hyn yn afresymol oherwydd bod cwestiynau heb eu hateb o ran adnoddau ac ariannu'r agweddau gwahanol sydd ynghlwm wrth broses y cyrff cymeradwyo SuDS." Awdurdod Lleol*

*"Bydd gwneud ymrwymiad clir i greu cyrff cymeradwyo SuDS drwy gychwyn Atodlen 3 yn rhoi ysgogiad clir i'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol wneud y trefniadau priodol i baratoi ar gyfer cyflawni rôl y cyrff cymeradwyo" Awdurdod Lleol*

*"Er bod cyflwyno'r SIS erbyn Mai 2018 yn ymddangos yn rhesymol, rydym yn croesawu'r cyfnod trosiannol 6 mis." Awdurdod Lleol*

*"…. nid yw rhai awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'n llawn y cyfleoedd a'r cyfrifoldebau a ddaw yn sgil rôl y cyrff cymeradwyo SuDS. …… mae adroddiadau anecdotaidd gan ddatblygwyr yn awgrymu, er enghraifft, bod rhai awdurdodau lleol yn parhau i wrthod cysylltu draeniau priffyrdd a'u bod yn cyfeirio cwsmeriaid yn lle hynny at …. garthffosydd cyfun." Cwmni Cyfleustodau*

*"Byddai'n fuddiol i bawb petai awdurdodau lleol yn cael eu hannog i dreialu'r drefn cyn bod yr Offerynnau Statudol yn dod i rym." Cwmni Cyfleustodau*

*"…. yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r ddeddfwriaeth i'r Cynulliad ym Mai 2018 ac yn cefnogi'n llwyr y bwriad i gael cyfnod trosiannol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fod yn barod i weithredu hyn a chyflawni swyddogaeth y cyrff cymeradwyo SuDS ac i brosesu'r ceisiadau." Awdurdod Lleol*

*Mae llawer iawn o ddatblygiadau mawr ar y gweill yn ein hardal ac mae diffyg SuDS gwyrdd yn gyfle a gollwyd." Awdurdod Lleol*

**"***Mae'n debyg y bydd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, yn enwedig y rheini ag adnoddau cyfyngedig iawn ar hyn o bryd sy'n ei chael hi'n anodd cyflawni eu dyletswyddau statudol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhaid cael y mesurau hyn, a gyda chymorth ac arweiniad priodol gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym yn rhagweld y byddai Tachwedd 2018 yn bosibl." Awdurdod Lleol*

*"… mae'n debyg mai cychwyn Atodlen 3 fyddai'n cynnig y cyfle gorau o gael dull cyson i weithredu, i gymeradwyo, i fabwysiadu ac i gynnal SuDS ledled Cymru…"* Unigolyn

**Ymateb y Llywodraeth**

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno'r offerynnau statudol angenrheidiol ym mis Mai, a dechrau gweithredu dim cynharach na mis Tachwedd 2018. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cyflwyno Gorchymyn Cychwyn ar gyfer Atodlen 3 i'r Cynulliad yng nghanol mis Mai. Bydd hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion lunio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Bydd hefyd yn pennu "dyddiad dod i rym" ar gyfer gofynion llawn yr Atodlen o ran prosesau cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio dŵr wyneb newydd y cyrff cymeradwyo SuDS.

Felly, rydym yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i ddiwygio Offerynnau Statudol drafft yr ymgynghoriad i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Y bwriad fydd eu cyflwyno i'r Cynulliad ddiwedd mis Mai. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, byddant wedyn yn barod ar gyfer diwedd Mehefin ac yn dod i rym chwe mis yn ddiweddarach, ar 7 Ionawr 2019.

**TABL 1 Amserlen Cychwyn**

| **Cam Gweithredu** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyhoeddi crynodeb o'r Ymgynghoriad ac Ymateb y Llywodraeth | 26 Ebrill 2017 |
| Gorchymyn Cychwyn Atodlen 3 | Erbyn 15 Mai 2018 |
| Gosod yr Offerynnau Statudol gerbron y Cynulliad am bedair wythnos | Erbyn diwedd Mai |
| Dadl yn y Cynulliad am y Rheoliadau cadarnhaol | Erbyn diwedd Mehefin |
| Atodlen 3 yn dod i rym | 7 Ionawr 2019 |


**Cwestiwn 2**

Rydym yn cynnig na fydd cymeradwyaeth gan y SAB yn ofynnol yn ystod y 12 mis cyntaf ar gyfer:

- Datblygiadau a oedd wedi cael caniatâd cynllunio yn barod cyn i'r darpariaethau gael eu cychwyn; neu
- Ddatblygiadau ag un neu fwy o faterion a gadwyd yn ôl lle gwneir cais i gymeradwyo'r mater(ion) a gadwyd yn ôl; neu
- Ddatblygiadau lle'r oedd cais cynllunio dilys wedi cael ei gyflwyno cyn i'r darpariaethau gael eu cychwyn.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno â'r dull hwn o weithredu mewn perthynas â threfniadau trosiannol?
Os nad ydych, rhowch resymau.

**Ffigur 3**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd yr ymateb mwyaf gan y rheini a oedd yn cytuno â'r dull arfaethedig, gyda thua chwarter yr ymatebwyr ddim yn mynegi unrhyw farn a rhai ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Lleiafrif bach yn unig oedd ddim yn cytuno.

Tra bod y rhelyw yn cytuno a'r cynigion arfaethedig ar gyfer y cyfnod trosiannol, mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddryswch am y dyddiad dod i rym. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pryd fyddai'r cyfnod 12 mis yn dechrau ac yn gorffen.
Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch beth fyddai'n digwydd os oes cais i amrywio amod cynllunio.

Roedd y ddwy ochr, y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cyfnod trosiannol 12 mis arfaethedig, wedi awgrymu efallai byddai rhai datblygwyr yn rhuthro i gyflwyno ceisiadau cynllunio cyn bod y gofynion yn dod i rym fel na fyddai'n rhaid iddynt gydymffurfio. Ymysg y rheini a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion, roedd rhai'n teimlo y byddai cyfnod trosiannol byrrach o chwe mis yn fwy priodol, tra bod eraill yn poeni a fyddai'r cyrff cymeradwyo SuDS yn barod o fewn blwyddyn, gan awgrymu y dylid cael cyfnod hirach.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Rydym yn cytuno â hyn, fodd bynnag hoffem bwysleisio'r posibilrwydd y gellid colli cyfleoedd i ddarparu cynlluniau SuDS cyflawn yn briodol o fewn y cyfnod trosiannol wrth i ddatblygwyr geisio rhuthro pethau drwodd." Awdurdod Lleol*

*"Mae angen eglurhad ynghylch y dyddiad cychwyn – ai Mai 2018 (cychwyn Atodlen 3) neu Dachwedd 2018 (gweithredu'n llawn)? …. awgrymu defnyddio rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2018 fel cyfnod treialu i asesu faint o geisiadau rydym yn debygol o'u cael," Awdurdod Lleol*

*“Er na fyddai gennyf broblem gyda safleoedd sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio cyn y dyddiad cychwyn, dylid cael terfyn amser fel nad yw datblygiadau’n dechrau ar drothwy terfyn amser unrhyw ganiatâd cynllunio sy’n dod i ben neu cyn gofyn am estyniad amser.” Awdurdod Lleol*

*“Dylai esemptiadau i’r gofyniad am gymeradwyaeth fod yn seiliedig ar ddyddiad cychwyn/swyddogaeth y corff cymeradwyo SuDS yn ardal yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Os oes angen 12 mis ar y corff cymeradwyo SuDS cyn bod ganddo adnoddau digonol, yna dylid defnyddio'r dyddiad hwnnw (e.e. Mai 2019) at ddibenion esemptiadau sy’n gysylltiedig â chaniatadau neu amodau blaenorol. Gellid lliniaru’r baich hwn drwy ystyried cyflwyno’n raddol y gofyniad am gymeradwyaeth gan y cyrff cymeradwyo SuDS.” Awdurdod Lleol*

*“Dylid lleihau’r cyfnod trosiannol hwn i 6 mis a chynnwys ceisiadau cynllunio gyda chaniatâd llawn yn unig… [byddai hyn yn]… sicrhau bod rhaid cael SuDs ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau sy’n mynd rhagddynt yn 2018 / 2019. Mae’n debyg y bydd datblygwyr yn cyflwyno nifer fawr o geisiadau er mwyn manteisio ar unrhyw gyfnod trosiannol.” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rhaid ystyried yr opsiynau’n ofalus iawn ar gyfer y trefniadau trosiannol i weithredu’r gymeradwyaeth newydd hon. Er bod cryn gefnogaeth i sefydlu esemptiadau deuddeg mis mewn achosion lle mae caniatâd cynllunio eisoes mewn grym, un o’r amcanion allweddol o hyd yw nad ydym yn effeithio’n negyddol ar ddatblygiadau a gynlluniwyd.

Felly, rydym yn cynnig na fydd angen cymeradwyaeth y corff cymeradwyo SuDS ar gyfer unrhyw ddatblygiad sydd â chaniatâd cynllunio eisoes neu os oes cais dilys wedi’i gyflwyno cyn bod y gofynion SuDS yn dod i rym. Mae perygl y bydd rhai datblygwyr yn ceisio hepgor cymeradwyaeth y corff cymeradwyo SuDS drwy gyflwyno ceisiadau cyn y dyddiad. Fodd bynnag, credwn y bydd datblygwyr yn pwyso a mesur rhwng osgoi’r angen i gael cymeradwyaeth a’r manteision o ddefnyddio’r dull SuDS fel bod y cyrff cymeradwyo SuDS yn gallu mabwysiadu’r systemau dŵr wyneb.

Bydd angen cymeradwyaeth y corff cymeradwyo SuDS ar bob cais cynllunio newydd a wneir ar ôl y dyddiad dod i rym.

**Cwestiwn 3**

Rydym yn deall pa mor bwysig yw canllawiau wrth weithredu'r broses SuDS. Rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol, datblygwyr, ymgyngoreion statudol ac eraill er mwyn llunio dogfen addas. Rydym wedi gweithio gyda'n Grŵp Cynghori SuDS ac wedi cynnal cyfres o weithdai ymgynghori ym mis Chwefror 2018 gyda'r bwriad o lunio canllawiau drafft erbyn Gwanwyn 2018.

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom ddynodi y byddai'r canllawiau yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Gofynion Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
- Y Safonau a chanllawiau cysylltiedig
- Trefniadau trosiannol ac esemptiadau
- Paratoadau cyn gwneud cais
- Gwneud cais - gofynion, cynlluniau, amseriad, ffurflen ddrafft
- Cytundebau'r Cyrff Cymeradwyo SuDS
- Cysylltiadau â chynllunio, priffyrdd
- Bondiau, ffioedd a safonau gwasanaeth, yn cynnwys rôl ymgyngoreion statudol
- Arolygiadau
- Mabwysiadu ac ariannu, yn cynnwys opsiynau cynnal a chadw posibl
- Beth sy'n digwydd os na ellir cwblhau cytundeb?
- Datrys anghydfodau
- Cyfathrebu

a gofynnwyd a ddylid cynnwys unrhyw feysydd eraill.

**Cwestiwn 3**: Pa feysydd, os o gwbl, yn ogystal â'r rheini a restrwyd uchod, y dylai'r canllawiau ymdrin â nhw?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd rhan fwyaf yr ymgyngoreion wedi ymateb i'r cwestiwn hwn (dros 25 ymateb) a chafwyd ystod eang o atebion gyda llawer o wybodaeth fanwl. Roedd awdurdodau lleol wedi tynnu sylw at yr angen i gael canllawiau ar sefydlu'r cyrff cymeradwyo SuDS, yn ogystal â chytundebau cyfreithiol enghreifftiol a dogfennau safonol.

Pwysleisiwyd gan rai mewn awdurdodau lleol fod cael eglurhad ar y gofynion ar gyfer ceisiadau SuDS yn flaenoriaeth. Gofynnodd un am ragor o wybodaeth am bwerau gorfodi. Codwyd materion yn ymwneud â ffioedd a bondiau gan sawl ymatebydd a gofynnwyd am ganllawiau manylach am werth

bondiau a'u defnydd. Roedd sawl ymateb wedi gofyn am ganllawiau technegol ar yr amgylchiadau lle byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth, ar faterion bioamrywiaeth, ar ddyluniad y SuDS, ac ar ganfod cyfleoedd i'w defnyddio a'u gwerthuso.

Roedd un ymateb wedi pwysleisio bod angen i'r canllawiau roi sylw i ddatblygiadau mawr cam-wrth-gam a allai effeithio ar strategaeth ddraenio sydd eisoes wedi'i chytuno ar gyfer y safle cyfan.

Nodwyd mewn sawl ymateb pa mor bwysig oedd cael cysylltiadau clir â Pholisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol cysylltiedig. Gwnaeth sawl ymatebydd sylw ar werth y canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson ledled Cymru.

Roedd sawl ymateb wedi gofyn am eglurhad ynghylch yr amserlenni gweithredu a phryd byddai'r canllawiau ar gael.

Hefyd, tynnwyd sylw mewn sawl ymateb at hyfforddi staff awdurdodau lleol, gan rybuddio y gallai fod prinder sgiliau priodol. Nodwyd pa mor bwysig oedd hi bod pawb sy'n mynychu'r hyfforddiant yn deall beth a olygir gan SuDS o ansawdd da sy'n esgor ar nifer o fanteision. Dylai'r hyfforddiant gynnwys dealltwriaeth sylfaenol am yr hyn i chwilio amdano fel bod SuDS yn darparu nifer o fanteision yn y cam dylunio ac arolygu, a dylid hefyd rhoi sylw i agweddau gorfodi. Roedd sawl ymatebydd wedi cynnig helpu i lunio'r adnoddau hyfforddi.

Awgrymodd un ymateb mai blaenoriaeth y rhaglen hyfforddi oedd cael hyfforddiant ar y cyd rhwng cyrff cymeradwyo SuDS a chynllunio er mwyn egluro sut mae'r ddwy broses gymeradwyo'n gweithio ac i osgoi gwrthod / cymeradwyo ceisiadau'n anghyson.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"I wneud yn siŵr bod rôl y cyrff cymeradwyo SuDS yn cael ei chyflawni'n gyson, mae'n hanfodol bod Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn cael cymorth a chanllawiau priodol er mwyn sicrhau bod gan gyrff cymeradwyo adnoddau a darpariaethau digonol yn eu lle a'u bod yn barod i weithredu pan fydd Atodlen 3 yn cychwyn," Awdurdod Lleol*

*"Byddem yn awgrymu cynnwys gofynion a awgrymwyd fel rhan o 7.23 (tystiolaeth i gefnogi mecanweithiau adolygu costau cymeradwyo'r cyrff cymeradwyo SuDS yn y dyfodol) yn y canllawiau i sicrhau bod y 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn cofnodi'r wybodaeth yn gyson," Awdurdod Lleol*

*" … dylid cael canllawiau cenedlaethol mwy penodol fel 'SuDS i'w Mabwysiadu' yn debyg i'r manylion yn y Carthffosydd i'w Mabwysiadu…" Awdurdod Lleol*

*"Byddai rhagor o fanylion ar y meini prawf esemptiad yn fuddiol" Awdurdod Lleol*

*“Materion cyfreithiol yn cynnwys dyluniad strwythurau, hawddfreintiau a gweithdrefnau gorfodi ac ati.” Awdurdod Lleol*

*“ …. datganiad ar ddechrau'r canllawiau…. ‘Ar gyfer pob datblygiad newydd, mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i gyrff cymeradwyo SuDS geisio arafu’n sylweddol neu sicrhau gostyngiad cyffredinol mewn dŵr wyneb sy’n cyrraedd carthffosydd cyhoeddus a systemau cyfun….” Cwmni Cyfleustodau*

*“Dylid darparu canllawiau a/neu hyfforddiant i gyrff cymeradwyo SuDS am yr ystyriaethau mewn contract cynnal a chadw i sicrhau bod y safonau SuDS cenedlaethol yn dal i gael eu bodloni. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth am fonitro a gorfodi a dylai gynnwys SuDS sydd heb eu mabwysiadu gan y cyrff cymeradwyo SuDS.” Corff Anllywodraethol Amgylcheddol*

*“Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu rhaglen barhaus o hyfforddiant.” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein canllawiau. Lle bo hynny’n briodol, rydym wedi ystyried y sylwadau a gafwyd fel rhan o’r ymgynghoriad hwn. Rydym yn rhagweld y bydd yn “ddogfen fyw” a bydd angen gwneud newidiadau iddi wrth i ni ddod ar draws gwahanol faterion, felly byddwn yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol, wrth roi Atodlen 3 ar waith.


Fodd bynnag gyda rhai materion, fel y trefniadau gweithredu mewn awdurdod lleol, yr awdurdodau eu hunain sydd yn y safle gorau i benderfynu arnynt, gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyn belled â phosibl, byddwn yn ceisio gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a’u cefnogi yn hyn o beth.

Ni fydd ein Canllawiau yn rhoi sylw i faterion technegol na gofynion hyfforddi. Rhoddir sylw i’r materion hyn ar wahân. Bydd yn cyfeirio at ystod eang o adnoddau ategol perthnasol, a byddem yn croesawu awgrymiadau ar gyfer dolenni ychwanegol i’w cynnwys.

**Cwestiwn 4**
Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi sylw i ddatblygiadau sy'n cael eu hesemptio o'r gofyniad am gymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SuDS. Yn benodol, yn dilyn yr ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Mai 2017, ystyriwyd esemptiad posibl arall ar gyfer gwaith a wneir gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno â'r esemptiad arfaethedig ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol?<br>A allwch chi gyflwyno tystiolaeth o blaid esemptiad? |

**Ffigur 4**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd dadleuon o blaid y ddwy ochr ar y cwestiwn hwn. Ni ddarparwyd tystiolaeth i awgrymu'r niferoedd na'r mathau posibl o ddatblygiadau a wneir gan Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol y byddai'r esemptiad hwn yn berthnasol iddynt. Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi mynegi dryswch am gwmpas yr esemptiad a'r risg y gallai ei achosi'n ymddangosiadol i ystod eang o weithgareddau awdurdod lleol. Roedd un ymateb wedi gofyn am esemptiad pellach ar gyfer gweithgareddau draenio ar briffyrdd.

Roedd sawl un a oedd yn gwrthwynebu'r esemptiad wedi cyfeirio at dryloywder a thegwch fel ffactorau pwysig. Roedd y rheini a oedd yn gweld yr esemptiad yn un rhesymol yn dweud bod yr oruchwyliaeth bresennol dros waith yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn eang ac yn ddigonol, gan deimlo bod ceisio cymeradwyaeth y corff cymeradwyo SuDS yn wastraff adnoddau. Fodd bynnag, nid oedd yr un ymateb wedi ystyried pa fath o weithgaredd gan yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol allai gael "goblygiadau draenio" yng ngeiriad y Ddeddf, nac ychwaith i ba raddau y byddai angen cymeradwyaeth ai peidio ar weithgareddau o'r fath.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Mae’n arfer da i gorff cyhoeddus fod yn dryloyw gyda’i ddulliau gweithredu, a’i fod yn gallu darparu tystiolaeth wrth ymateb i graffu. O'r herwydd ni chredwn y byddai esemptiad o’r fath yn gallu gwrthsefyll yr her honno.” Awdurdod Lleol*

*“Cytuno â’r esemptiad ar gyfer ALlLIA i’w galluogi i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yn brydlon gan ddefnyddio ein hawliau datblygu a ganiateir presennol.” Awdurdod Lleol*

*“Mae’n debyg iawn y bydd gwaith Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn cael effaith sylweddol ar oblygiadau draenio. Dylai gwaith o’r fath fod yn destun cymeradwyaeth y corff cymeradwyo SuDS.” Awdurdod Lleol*

*“Dylai pob parti sy’n gwneud datblygiadau newydd gael eu trin yr un ffordd, fel nad oes rhagfarn.” Awdurdod Lleol*

*“Nid yw’r ddogfen ymgynghori yn cynnwys unrhyw gyfiawnhad dros yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol….” Busnes*

*“… nid yw’r Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir yn debygol o fod angen*
*caniatâd y corff cymeradwyo SuDS am unrhyw waith y bydd yn ei wneud, mae esemptiad ‘carte-blanche’ yn codi pryderon am dryloywder” Awdurdod Lleol*

*“Mae’r rhain i gyd yn waith na fyddai angen i’r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol eu mabwysiadu fel arfer, felly does dim angen gwastraffu adnoddau yn cymeradwyo hyn.” Unigolyn*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gan ystyried y dryswch posibl o ran gweithredu’r esemptiad hwn, a’r diffyg tystiolaeth i’w gefnogi, nid ydym yn cynnig cynnwys esemptiad ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu’r penderfyniad ar ôl dwy flynedd o weithredu’r broses gymeradwyo ac yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai’n cefnogi esemptiad o'r fath. Byddai hyn yn caniatáu i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a chyrff cymeradwyo SuDS gasglu tystiolaeth i gefnogi unrhyw newid.

**Cwestiwn 5**

Ymgais oedd y cwestiwn hwn i brofi’r strwythur ffioedd arfaethedig ar gyfer prosesau cymeradwyo'r cyrff cymeradwyo SuDS a’r cynigion i’w hadolygu. Ar ôl ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Mai, gwnaethom gynnig strwythur ffioedd cenedlaethol ar gyfer y cyrff cymeradwyo SuDS. Roedd y ffi hon yn cynnwys swm penodol ar gyfer pob cais yn ogystal â swm ychwanegol a bennir yn ôl maint yr ardal adeiladu.

Roedd y cwestiwn yn gofyn am farn ymatebwyr ar yr wybodaeth y dylai cyrff cymeradwyo SuDS ei chasglu a’i hadrodd i Lywodraeth Cymru er mwyn

cynorthwyo i bennu ffioedd y cyrff cymeradwyo yn y dyfodol a pha mor aml y dylid adolygu hyn.

**Cwestiwn 5:** Pa wybodaeth y dylai fod yn ofynnol i'r cyrff cymeradwyo SuDS ei chyflwyno fel rhan o drefn adolygu costau cymeradwyaeth gan gyrff cymeradwyo SuDS? Pa mor aml y dylid cynnal adolygiad? Unwaith y flwyddyn neu unwaith bob dwy flynedd?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd gan bron tri chwarter yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau ar y pwnc hwn a mynegwyd amrediad o safbwyntiau mewn ymateb i'r ddau gwestiwn.

O ran y wybodaeth y dylid ei chyflwyno fel rhan o'r adolygiad o gostau cymeradwyo'r cyrff cymeradwyo SuDS, cafwyd cytundeb cyffredinol ar rai elfennau hanfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel mesur o'r amser a gymerir i asesu cais wedi'i luosi gan nifer y ceisiadau a aseswyd, gan ystyried cyfradd oriau'r swyddogion ar lefelau gwahanol a fu ynghlwm wrth y gwaith. Byddai'n rhaid cael tystiolaeth fel sail i bob un o'r ffactorau hyn.

Ymysg y ffactorau eraill i'w hystyried, y rhai mwyaf cyffredin oedd rhyw fath o fesur o gymhlethdod neu faint y ceisiadau, nifer yr apeliadau a ffioedd unrhyw drydydd partïon, e.e. pan fo angen ceisio cyngor gan ymgynghorydd allanol. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod angen adolygu pob elfen o waith y cyrff cymeradwyo SuDS er mwyn asesu'r costau'n gywir, yn cynnwys eitemau fel yr oriau a gofnodwyd gan staff rhyngadrannol fel rhan o ymgynghoriadau mewnol.

Roedd sawl ymatebydd o'r fan y dylai trafodaethau cyn ymgeisio gael eu cynnwys yn y mesurau cost hyn, er roedd un ymateb yn cyfaddef na fyddai hynny'n bosibl.

Roedd y farn am ba mor aml dylid cynnal adolygiadau o'r fath yn annelwig. Y lleiaf poblogaidd oedd adolygiadau blynyddol a'r mwyaf poblogaidd oedd cynnal adolygiadau bob dwy flynedd. Bron mor boblogaidd oedd cynnal adolygiadau blynyddol yn y lle cyntaf ac wedyn newid i gylch bob yn ail flwyddyn ar ôl i'r cyrff cymeradwyo SuDS gael cyfle i "ffeindio'u traed" o ran eu dulliau gweithredu ac er mwyn pennu costau manwl gywir yn seiliedig ar brofiad gwirioneddol. Roedd dau ymatebydd wedi awgrymu adolygiad cychwynnol o gostau cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyntaf (Mawrth/Ebrill 2019) ac roedd un hyd yn oed wedi awgrymu cynnal asesiadau chwarterol o gostau ar ôl y cyfnod cynefino cychwynnol, ac wedyn cynnal adolygiadau unwaith bob 5 mlynedd ar ôl hynny. Un thema glir a oedd yn codi yn ymateb Awdurdodau Lleol oedd pryder gwirioneddol bod rhaid cadw cyfrif manwl gywir a thryloyw o'r costau.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Yn yr ymgynghoriad blaenorol… roedd nifer o ymatebion wedi nodi'r costau ychwanegol… nad ydynt yn cael eu hystyried yn y ffioedd presennol. Dylid annog Awdurdodau Lleol i fonitro’r costau hyn… ac ar ôl eu hychwanegu at y ffioedd arfaethedig…byddant yn darparu tystiolaeth o gostau gwirioneddol y cyrff cymeradwyo wrth brosesu SuDS. Dylid adrodd yn fwy rheolaidd (unwaith y flwyddyn) yn y lle cyntaf er mwyn cael syniad o’r costau cenedlaethol cyfartalog (gwirioneddol). Bydd hefyd angen dadansoddi’r costau fesul rhanbarth.” Academia*

*“Roedd yr HBF …yn awgrymu y dylai’r costau fod yr un peth ledled Cymru oni allai corff cymeradwyo SuDS penodol gyfiawnhau codi costau uwch, er na allwn ragweld pam….O ran adolygu'r costau, byddem yn awgrymu bob dwy flynedd, neu fel arall bydd y costau’n cael eu hadolygu’n barhaus.” Busnes*

*“…dylid ystyried yr adnoddau a ddefnyddir gan y corff cymeradwyo SuDS drwy gydol y broses gyflawn, yn cynnwys trafodaethau cyn ymgeisio, mewn unrhyw adolygiad o’r ffioedd. Dylai hyn gynnwys mynediad at arbenigedd proffesiynol addas (e.e. arbenigedd ecolegol i roi sylw i Safon 5, arbenigedd hydrolegol, cynnal a chadw yn y dyfodol ac ati). Rhaid ystyried pob elfen o'r broses, yn cynnwys mynediad at gyngor parhaus ar faterion cynnal a chadw ac ati.” Awdurdod Lleol*

*Dylai’r corff cymeradwyo SuDS gyflwyno’r costau ar gyfer cyflawni’r rôl a chost cyfartalog fesul cais. Petai rhai mathau o geisiadau’n arwain at gostau anarferol o’i gymharu â’r rhan fwyaf o’r gweddill, yna dylid ystyried hyn wrth benderfynu a oes angen pennu ffi arall ar gyfer ceisiadau o'r fath. Yn y lle cyntaf, byddai adolygiad unwaith y flwyddyn yn briodol ac wedyn unwaith bob dwy flynedd neu fwy pan sylweddolir nad oes angen amrywio’r ffioedd cymaint.” Awdurdod Lleol*

*“Dylid diffinio’r wybodaeth y gofynnir amdani cyn cychwyn cyflawni rôl y corff cymeradwyo SuDS a darparu swyddogaethau'r corff cymeradwyo er mwyn sicrhau bod modd cael y data’n brydlon o’r cychwyn cyntaf….Dylid adolygu’r data ar ôl casglu digon o wybodaeth i ddarparu data ystyrlon. Ar yr olwg gyntaf, byddai cyfnod adolygu bob 2 flynedd yn ymddangos yn briodol - ond dylid adolygu hyn yn y dyfodol pan fydd y corff cymeradwyo SuDS ar waith.” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi parhau i weithio a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod y cyfraddau ffioedd cychwynnol yn cael eu pennu ar lefel sy’n adennill costau, fel y bwriadwyd. Byddwn yn gosod cyfrifoldeb ar y cyrff cymeradwyo SuDS i gasglu data addas i alluogi cynnal adolygiad ym mis Ebrill 2020 a 2021. Erbyn hynny, mae’n debyg y bydd digon o ddata i ddarparu tystiolaeth i gefnogi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i’r ffioedd. Mae cynnwys cyfradd y ffioedd yn y Rheoliad yn rhoi sicrwydd a chysondeb ledled Cymru i'r ceiswyr ac i’r cyrff cymeradwyo SuDS. Byddwn yn cynnwys y ffioedd mewn cyfres ar wahân o Reoliadau, a fydd yn hwyluso’r broses o’u hadolygu yn y dyfodol.


Yn dilyn y sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn enwedig gan staff technegol awdurdodau lleol, rydym yn cynnig ffi sefydlog ar gyfer arolygiadau safle. Wrth ei cyflwyno gydag amodau cymeradwyo sy'n pennu nifer yr arolygiadau yn ystod y cyfnodau adeiladu a derbyn, bydd hyn hefyd yn rhoi sicrwydd i geiswyr ac i'r cyrff cymeradwyo SuDS o ran y costau. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Grŵp Cynghori SuDS ac eraill, rydym wedi pennu ffi o £60 yn y lle cyntaf.

**Cwestiwn 6**

Fel arfer, mae'r corff cymeradwyo SuDS a'r awdurdod cynllunio lleol yn yr un awdurdod lleol. Os nad yw hynny'n wir, rydym yn cynnig gadael i'r awdurdod cynllunio lleol arwain ar gamau gorfodi, yn ôl y gofyn. Fel arfer, y corff cymeradwyo SuDS fyddai'n cymryd camau gorfodi, ond bydd rhoi'r pwerau hyn i'r awdurdod cynllunio lleol hefyd yn golygu y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gallu cymryd camau gorfordi ar ran y corff cymeradwyo SuDS, os yw'r ddau ohonynt yn cytuno i hynny. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol os torrwyd un o'r gofynion cymeradwyo neu os aethpwyd yn groes i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'i bod yn fwy cost effeithiol i'r awdurdod cynllunio lleol gymryd y camau gorfodi ar ran y ddau.

| |
|---|
| **Cwestiwn 6:** Rydym yn bwriadu rhoi pwerau gorfodi i'r Corff Cymeradwyo SuDS a'r awdurdod cynllunio lleol. A ydych yn cytuno? |

**Ffigur 5**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, gyda chwarter yn erbyn. Roedd y rheini a oedd o blaid yn cydnabod pa mor

effeithlon fyddai hynny a’r ffaith bod gan dimau gorfodi mewn rhai awdurdodau lleol y sgiliau angenrheidiol yn barod.

Roedd y rheini a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn tynnu sylw at brinder staff, teimlad na ellid rhannu pŵer gorfodi fel hyn yn gyfreithiol, a’r potensial y gallai pwyllgorau cynllunio ddylanwadu ar benderfyniadau gorfodi. Mynegwyd pryder hefyd y gallai dryswch godi rhwng y ddwy broses gymeradwyo ar wahân ac roedd un ymateb o’r farn os yw proses gymeradwyo’r corff cymeradwyo SuDS a phroses y Cais Cynllunio ar wahân, yna dylid cadw’r pwerau gorfodi ar wahân hefyd.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Byddai hyn yn galluogi swyddogion i gymryd camau ar fyrder os oes problemau ar safle y mae’n rhaid mynd i’r afael â nhw ar unwaith.” Awdurdod Lleol*

*“Mae’n hanfodol bod y ddwy broses a’r pwerau gorfodi yn cael eu halinio i fod mor effeithlon â phosib yn y dyfodol wrth ddelio â materion gorfodi,” Awdurdod Lleol*

*“ …. mae’n ymddangos yn groes i’r diben cyffredinol fod proses gwneud cais y corff cymeradwyo SuDS yn broses ar wahân i gais cynllunio,” Awdurdod Lleol*

*“ … gallai hyn ychwanegu at lwyth gwaith timau gorfodi cynllunio. Mae’n bwysig ystyried yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y llwyth gwaith hwn.” Corff Proffesiynol*

*“Fel rhan o’r adolygiad cychwynnol o gostau, bydd angen adolygu costau gorfodi hefyd,” Awdurdod Lleol*

*“Mae’r tîm Gorfodi Cynllunio… yn darparu gwasanaeth tebyg iawn ..... Mae ganddynt y sgiliau a’r profiad angenrheidiol wrth reoli ‘materion gorfodi’ o’r math hwn a gallant gynorthwyo’r corff cymeradwyo SuDS ac arwain ar faterion gorfodi,” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae’n ymddangos bod rhywfaint o ddryswch a chamddealltwriaeth ynghlwm wrth y cynnig hwn. Ein nod yw sicrhau, pan fo camau cyfreithiol yn yr arfaeth ar gyfer gorfodi materion cynllunio a chyrff cymeradwyo SuDS, y gellid delio â hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl. Yn y rhan fwyaf o achosion yng Nghymru, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am y ddwy swyddogaeth ac ni fydd angen darpariaethau arbennig. Fodd bynnag, os mai Awdurdod Parc sy’n gyfrifol am gynllunio, yna mae cyfle i gydweithredu - a dyma beth fyddai’r ddarpariaeth hon yn ei hwyluso.


Rydym felly’n cynnig cynnwys y ddarpariaeth hon yn y ddeddfwriaeth ddrafft.

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi ceisio darparu pwerau mynediad i'r cyrff cymeradwyo SuDS sy'n rhesymol ac yn gymesur, ac ar yr un pryd, yn galluogi'r cyrff cymeradwyo SuDS i gymryd camau pan fod angen i gyflawni eu rôl gorfodi.

> **Cwestiwn 7:** *A ydych yn cytuno bod y pwerau mynediad arfaethedig yn rhesymol a chymesur? Os nad ydych, esboniwch pam.*

**Ffigur 6**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd cefnogaeth glir i'r pwerau mynediad arfaethedig ar gyfer y cyrff cymeradwyo SuDS. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn yn teimlo bod y pwerau'n rhesymol ac yn gymesur.

Roedd yr unig ymateb a oedd yn anghytuno wedi mynegi pryderon y byddai'r darpariaethau cysylltiedig, sy'n ymwneud â digolledial os yw datblygwr yn wynebu colled o ganlyniad i arolygiad, yn atal swyddogion arolygu rhag gweithredu. Tynnwyd sylw mewn sawl ymateb am yr angen i gael pwerau arolygu heb rybudd, ochr yn ochr â phryderon ynghylch mynediad i safleoedd adeiladu gan gofio materion iechyd a diogelwch.

Roedd nifer fach o ymatebion wedi mynegi pryder am yr arolygiad ar ôl gorffen gan argymell y dylid cynnwys hawddfreintiau addas fel rhan o unrhyw gytundeb i fabwysiadu.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Ydyn, mae’r rhain yn unol â’r pwerau presennol sydd ar gael i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, ac yn ein profiad ni mae hynny’n ddigonol,” Awdurdod Lleol*

*“ …efallai bydd angen cynnwys geiriad yn sôn am fynediad i safle adeiladu, oherwydd bod gofynion iechyd a diogelwch yn rhan o hyn o ran cael mynediad i’r safle. Mae’n debyg y byddai’n rhaid rhoi rhybudd i reolwr y safle neu’r datblygwr lle bo hynny’n ymarferol.” Busnes*

*“Rhaid cael pwerau mynediad heb rybudd er mwyn sicrhau bod y gofynion cymeradwyo wedi’u gweithredu,” Awdurdod Lleol*

*Lle bo hynny’n bosibl, dylai’r gweithdrefnau ar gyfer cyrff cymeradwyo SuDS gyfateb i’r pwerau sydd eisoes yn cael eu harfer gan yr Awdurdodau Cynllunio,” Awdurdod Lleol*

“ *…rhaid cael eglurhad ynghylch y pwerau mynediad… yn dilyn mabwysiadu strwythur y cyrff cymeradwyo SuDS… ar dir preifat,” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Barnwyd bod ein cynigion ar gyfer pwerau mynediad yn gymesur ac yn unol â phwerau tebyg o dan drefniadau eraill. Maent yn ceisio taro cydbwysedd rhwng anghenion y corff gorfodi a pherchennog y safle.


Rydym felly’n cynnig cynnwys y darpariaethau hyn yn yr Offerynnau Statudol fwy neu lai fel y maent.

**Cwestiwn 8**

Rydym yn bwriadu gwneud darpariaethau ar gyfer digolledu o dan amgylchiadau penodol pan fo datblygwr yn dioddef colled o ganlyniad i hysbysiad stop dros dro sy’n cael ei dynnu’n ôl, oherwydd y caniateir i hysbysiad o’r fath ddod i ben heb gymryd camau pellach, neu o ganlyniad i arfer pwerau mynediad.

**Cwestiwn 8:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r hawliad am ddigolledid yn ymwneud â phwerau mynediad a hysbysiadau stop dros dro gael ei gyflwyno o fewn 12 mis i arfer y pwerau neu o fewn 12 mis i’r dyddiad y tynnir yr hysbysiad yn ôl / y daw ei effaith i ben.
A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Ffigur 7**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â'r cynnig hwn heb wneud unrhyw sylwadau pellach. Roedd dau yn cytuno mewn egwyddor, yn amodol ar lunio methodoleg gyson y cytunwyd arni i'w defnyddio gan bawb. Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n llwyr gan ddadlau y byddai cyfnod 3 mis yn ddigonol. Roedd un arall yn cytuno â'r cynnig ond yn mynegi barn na ddylid dyfarnu costau am arfer pwerau hawliau mynediad.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Rydym yn amau a oes angen gweithdrefn ddigolledu ar gyfer colledion sy'n deillio o arfer Pwerau Mynediad. Mewn llawer o achosion, defnyddir Pwerau Mynediad i ganfod a dorrwyd unrhyw ofyniad ai peidio. Mae'n bosibl iawn na fyddant yn canfod tramgwydd, ond ni fyddai hyn yn amlwg i swyddog ymchwilio oni bai ei fod yn cynnal arolygiad." Corff Proffesiynol*

*"O ran Hysbysiadau Stop Dros Dro, byddem yn disgwyl gweld darpariaethau digolledu, fodd bynnag mae Rheoliad 7 y Gorchymyn drafft yn Atodiad D yn nodi bod gan ddatblygwr hawl i gael ei ddigolledu os nad yw'r corff cymeradwyo yn cymryd unrhyw gamau gorfodi pellach. …. mae'n bosib y byddai datblygwr….yn cytuno i ddatrys unrhyw dramgwydd/anghysonder a ganfuwyd. Os felly, mae'n bosibl na fyddai'r corff cymeradwyo yn gorfod cynnal unrhyw gamau gorfodi pellach." Corff Proffesiynol*

*"Mae cael 12 mis i gyflwyno hawliad yn teimlo'n rhy hir o lawer a gallai hyn arwain at ddryswch ar y safle sydd â sawl hawliad yn cael ei wneud, a phryd yr eir i'r afael â nhw. Bydden i'n awgrymu bod 3 mis yn rhesymol i gyflwyno hawliad, tra bo'r wybodaeth yn dal yn ffres." Awdurdod Lleol*

*"Ar gyfer proses/dull cyson, dylai'r uchod gyd-fynd â gweithdrefnau digolledu eraill." Awdurdod Lleol*

*Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r gweithdrefnau ar gyfer cyrff cymeradwyo SuDS gyfateb i'r pwerau sydd eisoes yn cael eu harfer gan yr Awdurdodau Cynllunio." Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**


Gan ystyried y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, byddwn yn cyflwyno'r cyfnod deuddeg mis yn ein deddfwriaeth. Fodd bynnag, bwriadwn egluro'r hawl mewn achos lle mae datblygwr yn cytuno i ddatrys problem ac felly nid oes angen camau gorfodi pellach.

**Cwestiwn 9**

Rydym yn bwriadu rhoi terfyn amser ar gyfer pryd y caiff corff cymeradwyo SuDS gyflwyno hysbysiad gorfodi. Cynigir y bydd hynny o fewn pedair blynedd i ddyddiad y tramgwydd neu i'r dyddiad y mabwysiedir y system ddraenio, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

| |
|---|
| **Cwestiwn 9**: Rydym yn cynnig bod terfyn amser o bedair blynedd yn cael ei osod ar gyfer pryd y caiff y Corff Cymeradwyo SuDS roi hysbysiad gorfodi, fel y gwneir gyda cheisiadau cynllunio. A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam. |

**Ffigur 8**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i

osod terfyn amser o bedair blynedd i'r Corff Cymeradwyo SuDS roi hysbysiad gorfodi, fel y gwneir gyda cheisiadau cynllunio. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn gofyn am eglurhad ynghylch a fyddai pwerau gorfodi eraill ar gael ar ôl y cyfnod pedair blynedd, ac os felly beth fydden nhw. Nodwyd bod yr eglurhad hwn yn bwysig i sicrhau bod elfennau o'r system SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol. Hefyd, pe byddai'r asedau hyn yn methu, gallai hyn gael effaith niweidiol ar eiddo/tir trydydd partïon.

Roedd un ymateb yn cytuno â'r terfyn amser, ar yr amod bod y cyfnod pedair blynedd yn dechrau o ddyddiad y gymeradwyaeth, bod y corff cymeradwyo SuDS wedi cael cynllun "fel y bydd wedi'i adeiladu" a bod arolwg camera o unrhyw rwydwaith dan ddaear. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod y system yn strwythurol gyfan ar ôl gorffen gwaith gwasanaethau ychwanegol i hwyluso'r datblygiad ac er mwyn osgoi difrod pan fydd y gwaith ar y safle wedi gorffen.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"A yw hyn yn golygu nad oes trefn orfodi ar gael ar ôl 4 blynedd?" Awdurdod Lleol*

*"Er mwyn cael dull cyson, dylai gweithdrefnau tebyg a mesurau arfaethedig gyd-fynd â'r gweithdrefnau cynllunio" Awdurdod Lleol*

*"Mae'r cynnig hwn yn ymddangos yn dderbyniol ac yn cyd-fynd â'r terfyn amser 4 blynedd ar gyfer datblygiad gweithredol." Corff Proffesiynol*

*Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r gweithdrefnau ar gyfer cyrff cymeradwyo SuDS gyfateb i'r pwerau sydd eisoes yn cael eu harfer gan yr Awdurdodau Cynllunio." Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ac ystyried y gefnogaeth i gyfnod pedair blynedd, byddwn felly'n cynnwys hynny yn yr offeryn statudol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod cyfleusterau SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn parhau i gael eu gweithredu yn ôl eu dyluniad.

Os oes dyletswydd ar y corff cymeradwyo SuDS i fabwysiadu, mae Atodlen 3 yn gofyn bod y corff cymeradwyo SuDS yn trefnu'r canlynol:

- cynnwys y system ddraenio (gan gynnwys unrhyw ran heb ei mabwysiadu) ar Gofrestr Adran 21 yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a
- dynodiad o dan Atodlen 1 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar gyfer unrhyw ran o'r system sy'n gymwys i gael ei dynodi.

Er nad oes rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS wneud yr un trefniadau ar gyfer systemau draenio lle nad oes ganddo ddyletswydd i fabwysiadu, byddai gwneud hynny'n sicrhau bod y system ddraenio yn cael ei gwarchod rhag difrod.

Ni cheir addasu, tynnu na disodli nodwedd ddynodedig o dan Atodlen 1 heb ganiatâd yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae Atodlen 1 hefyd yn cynnwys pwerau cysylltiedig i'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae hyn yn codi'r cwestiwn am yr angen i gynnwys cynnal a chadw, a rhown fwy o sylw i hyn yn nes ymlaen


**Cwestiwn 10**

Rydym yn bwriadu darparu ystod o sancsiynau nad ydynt yn rhai troseddol er mwyn annog y rheini nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion cymeradwyo i wneud hynny. Mae'r rhain yn debyg iawn i'r rheini a ddefnyddir ym maes gorfodi cynllunio, sef Hysbysiadau Stop Dros Dro, Hysbysiadau Gorfodi a Hysbysiadau Stop.

Yn achos datblygiad nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith, gallai hyn gael goblygiadau difrifol, yn cynnwys mwy o berygl llifogydd a llygredd dŵr. Credwn felly fod angen cael sancsiynau troseddol penodol, yn debyg i droseddau sydd ar hyn o bryd mewn camau gorfodi rheolaethau cynllunio. Mae troseddau a allai gael eu cyflawni gan gorff corfforaethol neu bartneriaeth wedi'u cynnwys hefyd.

| |
|---|
| **Cwestiwn 10:** A yw'r pwerau arfaethedig i ymyrryd a'r darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau yn yr offeryn statudol drafft yn briodol a chymesur? |

**Ffigur 9**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Dim ond 12 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno fod y darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau a throseddau yn briodol ac yn gymesur. Cydnabuwyd eu bod yn adlewyrchu'n gyffredinol

ddarpariaethau tebyg ym maes cynllunio. Ychydig iawn o sylwadau ychwanegol a ddarparwyd.

O’r rhain, roedd un wedi mynegi pryder nad oes gan gyrff cymeradwyo SuDS y pwerau angenrheidiol i sicrhau bod SuDS, ar ôl eu llunio, yn cael eu cynnal a’u cadw a’u rheoli yn unol â’r safonau SuDS cenedlaethol. Roedd un arall yn sôn am atebolrwydd mewn achos o lifogydd oherwydd bod system wedi methu gweithio’n ddigonol.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Maent yn ymddangos yn briodol ac yn gymesur” Awdurdod Lleol*

*“... mae’r pwerau arfaethedig i ymyrryd a’r darpariaethau sy’n ymwneud â throseddau yn briodol a chymesur. Maent yn gyson/tebyg i droseddau/pwerau gorfodi presennol Awdurdodau Cynllunio Lleol,” Awdurdod Lleol*

*“ … yn briodol yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag nid oes darpariaeth i gyrff cymeradwyo SuDS ar ôl mabwysiadu i sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw’n cael ei wneud yn gyson â’r safonau SuDS cenedlaethol.” Busnes*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae’r darpariaethau gorfodi arfaethedig yn debyg i drefniadau eraill ac roedd yr ymatebion yn cydnabod hyn. Byddwn felly’n ymgorffori’r rhain yn ein deddfwriaeth.


**Cwestiwn 11**

Rydym yn bwriadu rhoi’r hawl i ddatblygwyr apelio yn erbyn hysbysiadau gorfodi ar seiliau penodol. Byddai apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi yn cael ei benderfynu gan y Gweinidogion. Yn ymarferol, byddai apeliadau'n cael eu clywed gan gorff a benodir i weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, megis yr Arolygiaeth Gynllunio.

Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio barn ar weithdrefnau apelio. Ein bwriad yw y byddant yn debyg i apeliadau cynllunio. Byddent yn caniatáu dod i benderfyniad ar sail sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad. Byddai gofyn i Weinidogion Cymru benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer penderfynu ar yr apêl.

**Cwestiwn 11:** Rydym yn bwriadu darparu gweithdrefnau tebyg ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau gorfodi SuDS i'r rheini sy'n gymwys ar hyn o bryd i apeliadau yn erbyn camau gorfodi ym maes cynllunio (sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad).

**Ffigur 10**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Prin iawn oedd y sylwadau a ddaeth i law, heblaw am awydd i sicrhau bod gweithdrefnau'r cyrff cymeradwyo SuDS yn cyfateb cyn belled â phosibl i'r rheini sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio, gan fod Awdurdodau Lleol a datblygwyr yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau ar gyfer gorfodi cynllunio. Dim ond un ymatebydd oedd yn anghytuno â'r cynnig, gan awgrymu gweithdrefnau ysgrifenedig yn unig.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Er mwyn cael dull cyson, dylai gweithdrefnau tebyg a mesurau arfaethedig gyd-fynd â chynllunio. Byddai angen ymgynghoriad/ymrwymiad adrannau Awdurdod Lleol yn cynnwys cynllunio, cyfreithiol a phriffyrdd," Awdurdod Lleol*

*"Un elfen yn unig mewn datblygiad yw draenio dŵr wyneb. Mae'r opsiynau ar gyfer apeliadau gorfodi yn ymddangos yn ormodol, a dylid eu cyfyngu i sylwadau ysgrifenedig yn unig," Awdurdod Lleol*

*"Byddai mabwysiadu gweithdrefnau apelio yn debyg i gynllunio yn sicrhau dull cyson ac yn osgoi anghysondeb ag unrhyw weithdrefnau tebyg eraill a allai fod yn gyfarwydd i ddatblygwyr," Awdurdod Lleol*

*"Rydym yn argymell…, y dylai'r ymgymerwr carthffosiaeth gael yr hawl i apelio" Cwmni cyfleustodau*

*"Bydd cael prosesau apelio / gorfodi sy'n gyson ac yn cydweddu â'i gilydd yn help gyda dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth." Unigolyn*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Ceir cefnogaeth glir i fabwysiadu trefn sy'n seiliedig ar y model cynllunio cyfarwydd, felly byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn y ddeddfwriaeth heb


unrhyw newidiadau sylweddol. Rydym yn cydnabod y gwerth posibl mewn darparu hawl apelio i ymgyngoreion statudol yn erbyn penderfyniad y corff cymeradwyo SuDS. Fodd bynnag, ni chredwn fod digon o dystiolaeth i'w gynnwys ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnwys ymgyngoreion statudol fel partïon â diddordeb at ddibenion apeliadau. Byddwn yn adolygu hyn ar ôl cael profiad o weithredu'r system am ddwy flynedd.

**Cwestiwn 12**

Rydym yn cynnig y dylid cadw cofrestr o'r holl hysbysiadau gorfodi sy'n gysylltiedig â SuDS. Bydd yn cael ei chadw gan y corff cymeradwyo SuDS a bydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae ein dull arfaethedig o weithredu yn debyg i'r weithdrefn ar gyfer y gofrestr apeliadau yn erbyn gorfodi ym maes cynllunio.

| |
|---|
| **Cwestiwn 12:** Rydym yn cynnig y dylid cadw cofrestr o hysbysiadau gorfodi sy'n gysylltiedig â SuDS a fydd yn adlewyrchu'r gofrestr ar gyfer hysbysiadau gorfodi ym maes cynllunio.<br>A ydych yn cytuno? |

**Ffigur 11**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd rhan fwyaf yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i gael cofrestr o'r holl hysbysiadau gorfodi SuDS. Dylai'r corff cymeradwyo SuDS gynnal y gofrestr a dylai fod ar gael i'w harchwilio.

Cytunwyd bod cadw cofrestr o hysbysiadau gorfodi yn arfer da, ond rhybuddiwyd na ddylai fod yn rhy lafurus i'w llenwi. Roedd un ymateb yn nodi er ei fod yn cefnogi hyn mewn egwyddor, fe allai ychwanegu at lwyth gwaith y tîm gorfodi cynllunio.

Roedd un ymatebydd yn nodi ei fod ar ddeall fod y broses hon eisoes ar waith ac y byddai'n ofyniad ar gyfer chwiliad CON29 beth bynnag.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Byddai'n hanfodol bod y gofrestr hon yn cael ei rhannu rhwng y corff cymeradwyo SuDS a'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn sicrhau bod y ddau yn cael eu briffio ac yn ymwybodol o unrhyw gamau gorfodi sydd ar y gweill." Corff proffesiynol*

*"Byddai hyn yn sicrhau tryloywder a chysondeb," Awdurdod Lleol*

*"Er mwyn cael dull cyson, dylai gweithdrefnau tebyg a mesurau arfaethedig gyd-fynd â chynllunio." Awdurdod Lleol*

*"Dylai'r rhain gael eu cynnwys mewn cofrestr hysbysiadau gorfodi a'u cofnodi hefyd fel pridiant tir lleol," Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Gan fod y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig hwn, byddwn yn cynnwys y ddarpariaeth hon yn yr offeryn statudol terfynol.

**Cwestiwn 13**

**Cynnal a chadw SuDS a fabwysiadwyd**
I wireddu holl fanteision SuDS, mae'n hanfodol bod proses glir a hyblyg ynghlwm wrth gychwyn Atodlen 3 sy'n ymdrin â chyfrifoldebau cynnal a chadw yn yr hirdymor a chyfres bosibl o opsiynau cynnal a chadw sy'n galluogi gwaith cynnal a chadw cynaliadwy wedi'i ariannu. Rydym yn bwriadu cynnwys yr angen i ymgeiswyr ddangos beth fydd gofynion cynnal a chadw eu system ddraenio arfaethedig yn adran egwyddorion y Safonau SuDS.

Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio gwybodaeth am y trefniadau presennol a allai helpu i gyfrannu at y canllawiau.

**Cwestiwn 13:** A oes gennych unrhyw wybodaeth neu astudiaethau achos a allai helpu gyda'r canllawiau ar y mater hwn? Os oes, rhowch fanylion.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn neu nid oedd ganddynt unrhyw wybodaeth berthnasol i'w rhannu. Fe wnaeth tri ymatebydd roi sylwadau. Roedd un wedi sôn am systemau casglu dŵr glaw, na fyddent fel arfer yn cael eu mabwysiadu gan y corff cymeradwyo SuDS. Roedd yr ymatebion eraill yn tynnu sylw at bwysigrwydd monitro parhaus, y canllawiau technegol cysylltiedig a gwybodaeth am gynnal a chadw. Awgrymwyd efallai y gallai grwpiau gwirfoddol lleol gyfrannu at fonitro a chynnal a chadw.

Roedd un ymatebydd wedi gwneud sylw am broblemau posibl gyda chwmnïau rheoli, gan ddyfynnu tystiolaeth ysgrifenedig i broses graffu seneddol ôl-ddeddfwriaethol i Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (sesiwn 2016-2017)[1]. Roedd un arall yn cynnig sylfaen gyffredin ar gyfer cyfrifo cyfandaliadau ar gyfer cynnal a chadw.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Rydym yn cynnig y dylai cyrff cymeradwyo SuDS gysylltu â grwpiau natur a grwpiau cymunedol lleol a fyddai o bosibl yn fodlon gwneud y gwaith monitro hwn. Efallai y byddai'r grwpiau hyn yn fodlon rheoli'r SuDS hefyd." Corff Anllywodraethol Amgylcheddol*

*"Mae'r Landscape Institute wedi llunio canllawiau technegol ar gynnal a chadw SuDS (ac hefyd ystyriaethau dylunio yn ymwneud â chynnal a chadw)." Corff Anllywodraethol Amgylcheddol*

*"Gellid defnyddio fformiwla cyfandaliadau CSS yn yr enghraifft hon i gyfrifo unrhyw ffigurau i'w defnyddio ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol," Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Byddwn yn cynnwys darpariaeth ar gynnal a chadw yn y Safonau SuDS. Byddwn hefyd yn cynghori'r cyrff cymeradwyo SuDS i gasglu tystiolaeth ar gynnal a chadw er mwyn cyfrannu at adolygiad o weithrediad Atodlen 3 ar ôl dwy flynedd o weithredu.

**Cwestiwn 14**

Mae SuDS sy'n gwasanaethu eiddo o fewn cwrtil unigol yn cael eu heithrio o'r ddyletswydd i fabwysiadu. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu na fydd SuDS sy'n darparu draeniau ar gyfer adeilad neu strwythur a fydd, wedi iddo gael ei gwblhau, dan berchnogaeth neu reolaeth naill ai un person; neu gan ddau neu fwy o bobl ar y cyd megis pâr, cwmni neu bartneriaeth, yn gymwys i gael eu mabwysiadu gan y corff cymeradwyo SuDS.

Dyma rai enghreifftiau:


- Adeilad preswyl â nifer o fflatiau;
- Tŷ annedd sengl;
- Cyfadeilad ymddeol;
- Swyddfa neu adeilad masnachol;
- Datblygiad diwydiannol neu ystad fasnachol;
- Campws ysgol neu brifysgol;
- Clwb chwaraeon;

[1] https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/environment-food-and-rural-affairs-committee/inquiries/parliament-2015/flood-water-management-inquiry-16-17/

- Ysbyty neu gyfleuster meddygol arall.

| |
|---|
| **Cwestiwn 14:** A yw ein diffiniad o system ddraenio eiddo unigol yn glir o ran yr hyn a fydd neu na fydd yn cael ei fabwysiadu? Os nad yw'n glir, rhowch ddiffiniad arall.<br>A allwch awgrymu enghreifftiau eraill i'w cynnwys mewn canllawiau? |

**Ffigur 12**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Rodd ychydig dros dwy ran o dair o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd tri chwarter ohonynt yn nodi bod y diffiniad yn weddol glir yn eu barn nhw. Roedd nifer wedi mynegi pryderon am fannau gwan posibl.

Roedd tair thema gyffredinol yn peri pryder. Roedd eithrio systemau draenio sy'n gwasanaethu blociau o fflatiau rhag cael eu mabwysiadu a diffyg eglurder o ran datblygu'r rhain, a chaniatadau cynllunio a roddwyd i dai annedd sengl hunan-adeiladu fel rhan o ddatblygiadau mawr yn poeni rhai.

Pryder arall a godwyd oedd mewn perthynas ag ardaloedd datblygu sy'n gysylltiedig â datblygiadau cwrtil sengl a allai greu llawer o ddŵr wyneb ffo. Teimlwyd bod hyn yn gyfle wedi'i golli i osod SuDS. Awgrymwyd efallai y dylai cwrtilau eiddo sengl dros faint penodol orfod cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SuDS ac y dylid rhoi enghreifftiau cynhwysfawr ond clir o'r mathau o gwrtil sengl sydd wedi'u heithrio.

Y drydedd elfen a oedd yn achosi pryder oedd y dylai cyrff cymeradwyo SuDS gadw rhywfaint o reolaeth dros gynlluniau dylunio a chynnal a chadw nodweddion SuDS, yn enwedig mewn datblygiadau mawr fel ystadau masnachol neu ddiwydiannol a champysau addysgol.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Nid yw hyn yn glir, efallai fesul maint – angen cyfyngu’r ardal a’r cyfaint sy’n cael ei ollwng” Corff proffesiynol*

*“Nid yw’r diffiniad o system ddraenio eiddo sengl yn glir– angen eglurhad pellach. Ai arwynebedd y to neu gyfanswm arwynebedd y datblygiad yw’r arwynebedd anhydraidd 100m2? ” Awdurdod Lleol*

*“Nid yw’r enghreifftiau o’r hyn a ellid ei ystyried sy’n rhan o gwrtil unigol yn foddhaol ac nid yw CCC yn cytuno â’r enghreifftiau a roddwyd, ac eithrio tŷ annedd sengl. Dylai’r holl enghreifftiau eraill gael eu hannog i weithredu SuDS fel prif ddatrysiad draenio.*
*Roedd pryder y gallai’r diffiniad cyntaf “Adeilad preswyl â nifer o fflatiau” achosi dryswch os yw’n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio safleoedd datblygu preifat. Er enghraifft, a fyddai’r esemptiad yn berthnasol i floc o fflatiau sy’n cael ei adeiladu fel rhan o ddatblygiad preifat ac yn cael ei drosglwyddo i gymdeithas dai fel tai fforddiadwy?” Busnes*

*“Oni fyddai hyn yn golygu y byddai dau ddatblygiad o fflatiau (a fyddai fel arall yn union yr un peth) yn cael eu trin yn wahanol os yw pob fflat mewn un bloc yn eiddo i bobl wahanol a bod cymdeithas dai yn rhentu’r bloc arall o fflatiau i gyd. Nid oes cyfiawnhad amlwg dros wneud hyn,” Awdurdod Lleol*

*“Cytuno ei fod yn glir ar gyfer tŷ annedd sengl, ond ceir enghreifftiau ar safle hunan-adeiladu lle mae ceisiadau cynllunio ar gyfer tai annedd sengl ar safle mawr. Hefyd, dylid cael canllawiau o ran dyluniad a chynnal a chadw ysgolion sy’n cael eu hadeiladu o’r newydd, a datblygiadau masnachol a diwydiannol,” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Roedd nifer o’r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos eu bod wedi camddeall y cynnig, gan awgrymu y byddai eiddo cwrtil sengl yn cael esemptiad o ofynion cymeradwyo a chydymffurfio’r Safonau SuDS. Nid yw hynny’n gywir, oherwydd bod yr esemptiad a gynigir yn ymwneud â dyletswydd y corff cymeradwyo SuDS i fabwysiadu yn hytrach na gofyniad am gymeradwyaeth.

Byddwn yn ceisio darparu cymaint o eglurder â phosibl yn y canllawiau. Rhoddir sylw ym mhwerau gorfodi'r cyrff cymeradwyo SuDS i sicrhau bod systemau gydag esemptiad o fabwysiadu yn cael eu cynnal a’u cadw’n barhaus.

**Cwestiwn 15**

Mae paragraff 21 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn caniatáu i'r corff cymeradwyo SuDS fabwysiadu SuDS yn wirfoddol os nad oes dyletswydd arno i wneud hynny. Er enghraifft:


- SuDS sy’n bodoli eisoes nad ydynt, o bosibl, wedi'u hadeiladu yn unol â'r Safonau SuDS. Gallai hyn gynnwys SuDS amddifad neu SuDS nas mabwysiadwyd sy’n bodoli eisoes.
- SuDS sy'n gwasanaethu eiddo unigol.

Byddai angen cytuno ar drefniadau ariannu ar wahân ar gyfer cynnal a chadw SuDS a fabwysiedir yn wirfoddol gan y cyrff cymeradwyo SuDS.

Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS roi hysbysiad o'i benderfyniad i fabwysiadu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Cynigir hefyd y dylai'r amserlen 4 wythnos ar gyfer cofrestru a dynodi fod yn gymwys i systemau draenio a fabwysiedir yn wirfoddol.

**Cwestiwn 15:** Rydym yn cynnig y dylid rhoi terfyn amser o 4 wythnos i’r Corff Cymeradwyo SuDS ar gyfer prosesau gweinyddol (er enghraifft rhoi bondiau yn ôl, prosesau cofrestru neu ddynodi). Mae'r terfyn amser hwn yn gymwys drwy gydol y broses SuDS.
A ydych yn cytuno â'r amserlen hon?
Os nad ydych, esboniwch pam.

**Ffigur 13**




**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd dros hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi nodi nad oedden nhw’n cytuno nac yn anghytuno â’r cynnig neu heb ateb y cwestiwn. Roedd dros 25 y cant o’r rhai a wnaeth ateb y cwestiwn yn anghytuno â’r terfyn amser 4 wythnos gan roi rhesymau manwl pam.

Ymysg y pryderon a godwyd am y terfyn amser 4 wythnos oedd adnoddau staff (yn cynnwys amrywioldeb ar draws Awdurdodau Lleol), dim digon o amser i ddychwelyd bondiau i Adrannau Cyllid, dim arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, dim cyfnod nam gollyngiadau, ac oedi posibl wrth gofrestru a dynodi. Soniwyd hefyd am yr effaith ar gapasiti cyffredinol Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i gyflawni eu swyddogaethau i reoli perygl llifogydd ar lefel leol wrth i bwysau o ran refeniw a llwythi gwaith gynyddu.

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr wedi awgrymu y byddai 8 i 12 wythnos yn derfyn amser mwy realistig o gofio'r prosesau a'r gwaith sydd ynghlwm wrth hyn. Un opsiwn a gynigwyd oedd y byddent yn cytuno i'r terfyn amser 4 wythnos yn y lle cyntaf ar yr amod bod yr amserlen yn cael ei hadolygu ar ôl i'r cyrff cymeradwyo SuDS ddechrau gweithredu.

Roedd un awdurdod lleol wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd pŵer a roddwyd i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) i ddynodi strwythurau wedi'i ddefnyddio na'i archwilio yn eu hawdurdod nhw ac nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw awdurdod arall a oedd wedi llwyddo i ddefnyddio'r pwerau hyn.

Nodwyd hefyd bod angen dull gweithredu cyson gyda gweithdrefnau tebyg a mesurau arfaethedig sy'n cyd-fynd â pholisïau cynllunio a pholisïau corfforaethol eraill.

Roedd un ymatebydd wedi nodi y byddai'r terfynau amser ar gyfer rhyddhau'r bond y tu hwnt i reolaeth corff cymeradwyo SuDS a bod dynodi'n swyddogaeth ar wahân a allai fod yn rhy flinderus o'i gymharu â'i fanteision. Roedd dynodi hefyd yn cael ei weld fel Pridiant Tir felly roedd angen i Adrannau eraill yn y Cyngor roi eu mewnbwn nhw wrth ateb cwestiynau SUDS yn ymwneud ag Ymchwiliadau Lleol wrth werthu tai.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Ac ystyried llwyth gwaith posibl y cyrff cymeradwyo SuDS a'r gwahaniaethau mewn adnoddau ar draws Awdurdodau Lleol, efallai byddai 4 wythnos yn anodd; dylid gwneud rhagor o ymchwil/ystyriaeth bellach i amserlenni hirach hy. 6-8 wythnos o bosibl," Awdurdod Lleol*

*"Dylid ymestyn y broses hon i o leiaf 8 wythnos. Byddai hyn wedyn yn cymharu â Cheisiadau Cynllunio fel ymarfer tebyg." Unigolyn*

*"Mae'n debyg y bydd adnoddau'n broblem, gan gofio y bydd y pwerau'n dod i rym ym mis Mai a bydd yn cymryd amser i staff ymgyfarwyddo â'r broses." Awdurdod Lleol*

*"Dylai'r geiriad egluro ai wythnos waith yw hyn heb gyfri penwythnosau?" Busnes*

*"Byddem yn cynnig amserlen arall o 3 mis oherwydd yr adnoddau*

*sydd ar gael ac i alluogi digon o amser i drosglwyddo arian rhwng cyfrifon.” Awdurdod Lleol*

*“Petai angen arbenigedd ychwanegol, yna byddai sawl un o’r 22 Awdurdod Lleol yn cystadlu am yr un adnodd. Mae swyddi gwag presennol yn anodd iawn i’w llenwi…” Awdurdod Lleol*

*“Wrth i bwysau refeniw a llwyth gwaith gynyddu ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, mae risg y bydd eu capasiti cyffredinol i ymgymryd â’u swyddogaethau i reoli perygl llifogydd ar lefel leol yn dioddef. O’r herwydd, byddem yn argymell, fel rhan o broses weithredu cyrff cymeradwyo SuDS, y dylid adolygu dyletswyddau’r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a’u bod yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru i weithredu Atodlen 3.” Awdurdod Lleol*

*“Ceir pryder nad oes cyfnod diffygion yn y penderfyniad i fabwysiadu’r system heb ollyngiadau a’r perfformiad o safbwynt y bond. Ar hyn o bryd, mae gan Dŵr Cymru gyfnod diffygion o 12 mis ar ei systemau carthffosiaeth cyn rhyddhau’r bond er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio’n effeithiol cyn ei mabwysiadu. Byddai hyn yn rhesymol yn yr achos hwn hefyd.” Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn adlewyrchu pryder ynghylch gallu’r cyrff cymeradwyo SuDS i gwblhau’r broses o ryddhau’r bond yn y cyfnod pedair wythnos a awgrymir. Roedd rhai ymatebion yn credu bod hyn yn golygu y dylid rhyddhau neu ad-dalu’r bond o fewn pedair wythnos o gwblhau’r cynllun.

Ond nid felly y mae hi. Y corff cymeradwyo SuDS a’r datblygwr sy’n cytuno ar gyfnod amser addas i benderfynu a yw’r system ddraenio’n effeithiol (gelwir y cyfnod hwn weithiau’n gyfnod diffygion). Byddai'r cyfnod hwn wedyn yn cael ei gynnwys fel amod cymeradwyo a byddai’n dibynnu ar y math o system sy’n cael ei gosod.

Ar ôl pwyso a mesur yr ymatebion, credwn fod cyfnod o bedair wythnos i ryddhau'r bond ar ôl mabwysiadu’r system neu pan bennir bod y system wedi gorffen (os nad yw am gael ei mabwysiadu) yn rhesymol.

**Cwestiwn 16**

Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio barn am ddiogelu SuDS ar dir cyhoeddus sy’n eiddo i awdurdodau lleol. Bwriad y Rheoliadau drafft yw diogelu eu heffeithiolrwydd, gyda darpariaethau arbennig ar gyfer gwaith ymgymerwyr statudol. Mae’r rhain yn cynnwys:
- Gwaith dŵr a charthffosiaeth (Adran 159 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991)
- Gwaith nwy (Atodlen 4 i Ddeddf Nwy 1986)
- Gwaith trydan (Paragraff 10, Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989)

**Cwestiwn 16:** A oes unrhyw waith statudol arall y dylid ei gynnwys yn y rhestr hon?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ni chafwyd sylwadau i'r cwestiwn hwn gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd tua chwarter yn nodi bod angen cynnwys gwaith telathrebu a cheblau.

*"Oes – mae angen cynnwys unrhyw gyfarpar telathrebu". Awdurdod Lleol*

*"Telathrebu a gwaith ceblau. Cafwyd problem yn y gorffennol gyda goblygiadau draenio wrth wneud gwaith telathrebu gan achosi perygl llifogydd i eiddo ac i briffordd." Awdurdod Lleol*

*"Gall gwaith statudol yn ymwneud â thelathrebu (drwy Ddeddf Telathrebu 1984 fel y'i diwygiwyd gan atodlen 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003) hefyd effeithio ar effeithiolrwydd systemau SuDS ar dir cyhoeddus a dylid ei gynnwys yn y rhestr." Corff anllywodraethol amgylcheddol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**


Rydym yn ddiolchgar am y wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion hyn a byddwn yn cynnwys gwaith statudol sy'n ymwneud â thelathrebu, fel yr awgrymwyd gan ymgyngoreion.

**Cwestiwn 17**

Rydym hefyd yn cynnig y bydd y SAB yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgymerydd statudol adfer unrhyw ddifrod i'r SuDS yn unol â'r cynnig a gadarnhawyd ar gyfer gwaith ailadeiladu neu yn unol â'r Safonau SuDS, neu y gallai'r corff cymeradwyo SuDS ailadeiladu'r SuDS ei hun ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymerydd. Cyn pen 12 mis ar ôl i'r gwaith statudol gael ei gwblhau, rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS benderfynu a yw'n fodlon bod y gwaith ailadeiladu'n cydymffurfio â'r gofynion.

**Cwestiwn 17:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r holl ymgymerwyr statudol hysbysu'r Corff Cymeradwyo SuDS o leiaf bedair wythnos cyn gwneud gwaith a allai effeithio ar weithrediad SuDS.
A ydych yn cytuno â'r amserlen hon? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Ffigur 14**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd tua hanner ymatebwyr yr ymgynghoriad wedi ateb y cwestiwn hwn. Er bod bron i ddau o bob tri o'r rhai a atebodd yn cytuno â'r amserlen arfaethedig, un thema gyffredin yn y rhan fwyaf o'r sylwadau oedd y dylai'r amserlenni a ddefnyddir gyd-fynd mor agos â phosibl â'r rheini sydd eisoes ar waith i gwmnïau cyfleustodau wrth iddynt hysbysu adrannau priffyrdd am waith yn yr arfaeth. Yr amserlen hiraf mwyaf poblogaidd a gynigwyd fel arall oedd 12 wythnos ar gyfer gwaith mawr sydd yn yr arfaeth gyda rhai yn awgrymu y byddai rhwng 3 a 10 diwrnod o rybudd yn ddigonol ar gyfer mân waith. Awgrymwyd hefyd y gallai cyfnod byrrach fod yn briodol hefyd ar gyfer amgylchiadau yn unol â darpariaethau newydd y Ddeddf Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd (1991) ar gyfer gwaith stryd sydd angen ei wneud ar frys.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys dylunio SuDS i osgoi cyd-daro ag Ymgymerwyr Statudol (lle bo hynny'n bosibl) a gosod cyfyngiad ar unrhyw waith Ymgymerwyr Statudol sydd ddim yn waith brys mewn SuDS sydd newydd gael eu hadeiladu am gyfnod o rhwng 12 a 18 mis ar ôl ei gwblhau (fel sy'n digwydd gyda Phriffyrdd sydd newydd gael eu hadeiladu neu eu cynnal a'u cadw).

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Byddem yn croesawu cyfnod rhybudd hirach oherwydd yr adnoddau sydd ar gael yn yr Awdurdod – mae CCC yn awgrymu 3 mis". Awdurdod Lleol*

*"Anghytuno. Dylai gwaith wedi'i raglenni roi hysbysiad 6 wythnos ymlaen llaw". Awdurdod Lleol*

*"Bydd y gofynion yn wahanol ym mhob Awdurdod Lleol. Byddem yn argymell cyfnod rhybudd hirach ar gyfer unrhyw waith sydd wedi'i flaengynllunio." Awdurdod Lleol*

*"Gydag ymgymerwyr statudol yn rhoi hysbysiad o 4 wythnos am waith, bydd yn galluogi'r corff cymeradwyo SuDS i adolygu effaith bosibl y gwaith. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn hoffem ofyn bod FWMA Atodlen 3 yn cynnwys gwaith brys, hy. dylai'r ymgymerydd statudol hysbysu'r corff cymeradwyo SuDS o'r holl waith brys er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith wedi effeithio ar nodwedd SuDs yn ddiarwybod." Awdurdod Lleol*

*"Mae cyfnod rhybudd Ymgymerwyr Statudol am waith ar briffordd yn amrywio rhwng 3 mis am waith mawr a 3 diwrnod am ddarnau bach o waith". Awdurdod Lleol*

*"Efallai byddai'n fwy priodol petai'r cyfnod rhybudd yn gyson â gofynion y Ddeddf Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd Newydd, hy. o leiaf 10 diwrnod ar gyfer mân waith a 12 wythnos ar gyfer gwaith mawr sydd yn yr arfaeth". Awdurdod Lleol*


**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Gan ystyried y sylwadau yn y cynnig hwn, ein bwriad yw cynnwys cyfnod 4 wythnos yn yr offerynnau statudol yn y lle cyntaf, ond bydd hyn yn cael ei adolygu ar ôl y profiad o'i weithredu a'i ymestyn os bydd angen.

**Cwestiwn 18**

Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio safbwyntiau pellach yn ymwneud â gwaith a wneir gan ymgymerwyr statudol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 18:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r Corff Cymeradwyo SuDS, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, benderfynu o fewn 12 mis a yw'n fodlon bod y SuDS yn gweithredu yn unol â'r Safonau SuDS.<br>A ydych yn cytuno â'r amserlen hon? Os nad ydych, esboniwch pam. |

**Ffigur 15**



**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd pum deg y cant o’r ymatebwyr naill ai’n dweud nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno âr amserlen arfaethedig, neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn. Roedd barn y rheini a wnaeth ateb y cwestiwn hwn wedi hollti rhwng cytuno neu anghytuno â’r cynnig, sef ar ôl i’r gwaith gael ei gwblhau bod rhaid i'r Corff Cymeradwyo SuDS benderfynu o fewn 12 mis a yw’n fodlon bod y SuDS yn gweithredu yn unol â’r Safonau SuDS.

Un pryder am yr amserlen 12 mis oedd yr angen i brofi dau gylch tymhorol er mwyn asesu’r SuDS yn llawn. Ni fyddai SuDS nodweddiadol yn profi unrhyw broblemau cynnal a chadw sylweddol o fewn y 12 mis cyntaf o’i osod ac nad oedd hynny’n caniatáu digon o amser i systemau gwyrdd sefydlu eu hunain chwaith.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion wedi nodi pa mor bwysig oedd sicrhau bod y SuDS yn cael eu profi mewn amodau tywydd amrywiol. Roedd un ymateb yn awgrymu y dylid profi’r swyddogaethau dros gyfnod o 5 mlynedd.

Roedd yr amserlenni a awgrymwyd yn amrywio rhwng 12 mis a 24 mis. Cafwyd cais arall i egluro’r broses amserlenni yn ei chyfanrwydd oherwydd byddai’n rhaid dychwelyd y bondiau methu â chyflawni o fewn pedair wythnos i gyhoeddi’r hysbysiad i fabwysiadu.

Cafwyd cefnogaeth gref yn yr ymatebion i ddychwelyd y costau arolygu (bondiau) unwaith bod y corff cymeradwyo SuDS yn fodlon bod y SuDS yn gweithredu yn unol â'r Safonau SuDS.

Roedd un ymateb yn awgrymu cyhoeddi tystysgrif gwblhau ar ôl 12 mis ac wedyn cyfnod cynnal a chadw/profi o 12 mis fel sy’n digwydd gyda’r Adran Briffyrdd. Un cais arall a gafwyd oedd cael adendwm i ddangos bod y corff cymeradwyo SuDS yn ymwybodol bod y gwaith wedi gorffen, yn debyg i’r hyn sydd yn Neddf Difrod Cudd 1986, fel bod gan y corff cymeradwyo SuDS 12 mis o’r adeg y mae’n dod yn ymwybodol o’r gwaith/difrod.

Roedd un ymateb yn nodi er mwyn bodloni’r amserlen 12 mis, y byddai’n rhaid cwblhau’r asesiadau a’r arolygiadau gofynnol o fewn 10 mis oherwydd rhesymau gweinyddol. Am y rheswm hwn gwnaethant gynnig o leiaf 18 mis, ond gan gydnabod y gallai hyn osod atebolrwydd etifeddol gormodol ar ddatblygwyr a fyddai yn ei dro yn achosi anawsterau wrth ddatrys materion er mwyn gallu mabwysiadu yn y pen draw.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*“Yr unig ffordd o brofi’r SuDS yw mewn ystod eang o amodau tywydd. Os nad ydym yn profi’r ystod hwnnw o fewn 12 mis, ni ellir barnu bod swyddogaeth y SuDS wedi’i phrofi’n llawn. Felly, byddai cyfnod hirach yn fwy priodol.” Corff proffesiynol*

*“Mae’n ymddangos bod hwn yn anghyson â’r cynnig a awgrymir yng nghwestiwn 15, yn enwedig o ran dychwelyd y bond. Credwn na ddylid*

*dychwelyd y bond hyd nes bod y corff cymeradwyo SuDS yn fodlon bod y SuDS yn gweithredu yn unol â'r Safonau SuDS." Awdurdod Lleol*

*"Dylai'r egwyddor o gael 12 mis i benderfynu a yw SuDS yn foddhaol fod yn berthnasol i unrhyw SuDS, ac nid dim ond system a allai fod wedi cael ei heffeithio'n andwyol gan Gwmni Cyfleustodau. Dylid cael darpariaethau tebyg i'r Ddeddf Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd Newydd, sef darpariaethau i gyflawni'r swyddogaeth hon." Awdurdod Lleol*

*"Mae 12 mis yn weddol agos ati. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddai'n syniad da adolygu'r penderfyniad hwn ar ôl 3 blynedd dyweder." Awdurdod Lleol*

*"Mae angen esboniad ar yr amserlenni sydd ynghlwm wrth y broses gyfan. Gan y byddai'n rhaid dychwelyd y bond methu â chyflawni i'r datblygwr o fewn 4 wythnos o gyhoeddi'r 'hysbysiad i fabwysiadu' (Rheoliadau Gweithdrefn Draenio Cynaliadwy Cymru 2018 Para16(1)), oni fyddai'n rhesymegol peidio cyhoeddi'r hysbysiad i fabwysiadu hyd nes bod y corff cymeradwyo SuDS yn fodlon bod y SuDS yn gweithredu yn unol â'r Safonau. O'r herwydd, byddai'r hysbysiad i fabwysiadu a'r bond yn cael ei ryddhau ar ôl dod i'r penderfyniad hwnnw." Awdurdod Lleol*

*"Nid wyf yn siŵr a fydd yr holl systemau gwyrdd wedi setlo/aeddfedu o fewn yr amser hwnnw. Efallai byddai dau gylch tymhorol yn well, yn enwedig os yw plannu coed yn rhan o'r system." Busnes*

*"Rhaid cael mecanweithiau i adfer costau ar gyfer arolygiadau – costau am waith diffygiol neu waith anawdurdodedig er mwyn gallu adfer costau." Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae'n amlwg o sawl ymateb i'r cwestiwn hwn bod yr ymatebwyr yn meddwl am y broses fabwysiadu ac unrhyw gyfnod "diffygion" a bennir. Mae'r cwestiwn hwn yn fwy cyfyngedig na hynny, oherwydd ei fod yn berthnasol i adfer SuDS ar ôl gwaith gan ymgymerydd statudol. Fodd bynnag, mae darpariaethau sy'n rhan o ddeddfwriaeth priffyrdd yn rhoi cyfnod o dair blynedd lle mae'r cwmni cyfleustodau yn dal yn gyfrifol am waith adfer. Rydym felly'n cynnig y dylid cael cyfnod tebyg ar gyfer adfer SuDS.


**Cwestiwn 19**

Mae Atodlen 3 y Ddeddf yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth a fydd yn rhoi hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r corff cymeradwyo SuDS ar geisiadau am gymeradwyaeth (gan gynnwys penderfyniadau ar amodau) a phenderfyniadau ar y ddyletswydd i fabwysiadu

Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys Rheoliadau drafft yn amlinellu mecanwaith apelio yn seiliedig ar arferion cynllunio presennol. Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio barn ar y terfyn amser arfaethedig ar gyfer cyflwyno apêl.

| |
|---|
| **Cwestiwn 19:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i apêl gael ei chyflwyno cyn pen chwe mis i naill ai benderfyniad y corff cymeradwyo SuDS neu i'r dyddiad y dylai'r penderfyniad fod wedi cael ei wneud.<br>A ydych yn cytuno? |

**Ffigur 16**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd bron dau o bob tri o'r ymatebion yn cefnogi'r amserlen arfaethedig. Roedd un yn anghytuno gan gynnig terfyn amser 12 mis. Ni wnaeth y gweddill unrhyw sylwadau.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Dylai'r wybodaeth hon fod o ddyddiad y penderfyniad, oherwydd mae oedi'n bosibl os yw corff cymeradwyo SuDS yn disgwyl am ragor o wybodaeth." Awdurdod Lleol*

*"I gael dull gweithredu cyson, dylai gweithdrefnau a mesurau arfaethedig gyd-fynd â gweithdrefnau cynllunio." Awdurdod Lleol*

*"Atgynhyrchu'r system apelio bresennol yn y broses gynllunio." Awdurdod Lleol*

*"… yn croesawu'r cynigion. Rydym … yn ategu'r angen i gael canllawiau effeithiol ar gyfer y ddwy ochr; ceiswyr a chymeradwywyr. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses gymeradwyo'n glir o'r adeg y gwneir y cais er mwyn ceisio osgoi'r angen am apêl yn y lle cyntaf." Awdurdod Lleol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ac ystyried y gefnogaeth i'r amserlen arfaethedig a'r sylwadau'n ymwneud â gweithdrefnau cynllunio, bwriadwn gynnwys amserlen apêl 6 mis yn unol â'r


cynnig gwreiddiol. Rydym ar hyn o bryd wrthi'n llunio canllawiau gan ymgysylltu â'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cymaint o eglurder â phosibl.

**Cwestiwn 20**

Rydym yn cynnig darparu mecanwaith ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau cyrff cymeradwyo SuDS. Bydd hyn yn adlewyrchu'r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau cynllunio a darparu ar gyfer amrywiaeth o weithdrefnau apelio, gan gynnwys: sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad ac ymchwiliad. Rhagwelir y bydd modd ymdrin â'r rhan fwyaf o apeliadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

**Cwestiwn 20:** Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu gweithdrefnau tebyg ar gyfer apeliadau SuDS i'r rheini sy'n gymwys ar hyn o bryd i apeliadau cynllunio (sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad).
A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Ffigur 17**




**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r bwriad, gan nodi unwaith eto eu bod yn dymuno cael cysondeb â gweithdrefnau cynllunio. Roedd y rheini a wnaeth anghytuno neu a oedd yn rhoi'r argraff eu bod yn anghytuno, yn dueddol o feddwl y byddai'r cynnig yn flinderus a dylid ei gyfyngu i ddatrysiad sy'n seiliedig ar benderfyniad (cyn apelio i Weinidogion Cymru) neu sylwadau ysgrifenedig yn unig.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion:

*"Rydym yn cefnogi'r cynnig bod apeliadau'n cael eu trin yn gyson ag apeliadau cynllunio. Yr Arolygiaeth Gynllunio ddylai ymdrin â'r rhain, gydag*

*adnoddau ychwanegol priodol ar gael iddynt allu gwneud hyn." Corff proffesiynol*

*"Un elfen yn unig mewn datblygiad yw draenio dŵr wyneb. Mae'r opsiynau ar gyfer apeliadau cynllunio'n ymddangos yn ormodol, a dylid eu cyfyngu i sylwadau ysgrifenedig yn unig." Awdurdod Lleol*

*"Mae'r cynigion yn ymddangos yn rhesymol. Byddai mabwysiadu gweithdrefn apelio sy'n debyg i'r broses gynllunio'n sicrhau dulliau gweithredu cyson ac yn osgoi gwrthdaro â gweithdrefnau tebyg eraill a fyddai efallai'n fwy cyfarwydd i ddatblygwyr." Awdurdod Lleol*

*"Gan fod y rhesymau dros apelio'n fwy cyfyngedig nag apeliadau cynllunio, ystyrir ei bod yn fwy priodol y dylai'r gweithdrefnau gael eu cyfyngu i sylwadau ysgrifenedig a Gwrandawiad." Awdurdod Lleol*

*"Cytuno, ond rhaid i'r arolygydd gael dealltwriaeth dechnegol am ddraenio er mwyn sicrhau ystyriaeth deg i'r mater." Awdurdod Lleol*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Croesawyd y bwriad i atgynhyrchu'r broses mewn apeliadau cynllunio. Bydd hyn yn symleiddio'r broses i gyrff cymeradwyo SuDS, ceiswyr a'r rheini sy'n delio ag apeliadau. Byddwn yn llunio'r darpariaethau apêl yn yr offerynnau statudol gan lynu mor agos â phosibl at y broses apelio yn Rheoliadau Apeliadau Cynllunio 2017.

**Cwestiwn 21**

Diben y cwestiwn hwn oedd casglu sylwadau a phryderon yr ymgyngoreion y tu hwnt i'r cwestiynau ffurfiol 1-20.

> **Cwestiwn 21:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gofynnir i chi eu nodi yma.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd yr ymatebion i'r adran hon o'r ymgynghoriad wedi codi ystod eang o faterion. Rydym wedi llunio crynodeb bras o rai o'r materion hyn fesul sector, gyda dyfyniadau uniongyrchol i bwysleisio ambell bwynt penodol.

<u>Academia</u>

Roedd un ymateb penodol yn ceisio deall rôl y bondiau methu â chyflawni. Tynnodd sylw at yr ymateb i'r ymgynghoriad Craffu Ôl-Ddeddfwriaethol i'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn Lloegr a soniodd am fanteision bondiau methu â chyflawni, a'r peryglon os nad yw'r rhain yn addas at y diben.

*"O safbwynt datblygwyr, mae bondiau methu â chyflawni yn darparu'r cymhelliant sydd ei angen arnynt i gymryd dylunio a gweithredu SuDS o ddifri... byddai bondiau methu â chyflawni ... [yn darparu] ...gwarchodaeth ariannol i'r Awdurdodau Lleol, gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â'r dyluniad a'r Safonau Cenedlaethol bob tro."*21

<u>Gwledig</u>

Roedd y rheini a gynrychiolai busnesau gwledig yn cydnabod pwysigrwydd rheoli perygl llifogydd, ond roedd rhai o'r fan y byddai'r gofyniad i gael cymeradwyaeth SuDS ar gyfer datblygiadau amaethyddol sy'n fwy na 100 $m^2$ yn anghymesur ac y byddai'n cyflwyno costau ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r Safonau SuDS ac wrth geisio cael cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo SuDS.

Roedd un pryder arall yn ymwneud ag effaith bosibl y gofyniad SuDS ar werth tir sy'n cael ei werthu i'w ddatblygu, gan fynegi'r teimlad cyffredin bod angen mwy o dir ar SuDS.

*"…mae pennu'r trothwy eithrio ar <100m sgwâr yn rhy fach ac nid yw'n ddigonol at ddibenion amaethyddol. Er enghraifft, bydd llawer o storfeydd slyri yn fwy na 100m2." Busnes*

<u>Adeiladwyr a Datblygwyr</u>

Roedd un ymateb yn nodi'r angen am eglurder yn y canllawiau o ran y berthynas rhwng Rheoli Adeiladu a chyfrifioldeb y corff cymeradwyo SuDS dros ddraenio.
*"Nid yw'r canllawiau yn y ddogfen SUDS yn glir iawn, ond gallai awgrymu mai'r disgwyliad yw rheolaeth ddeuol o fewn cwrtil y safle, Rhan H drwy'r BCB a'r FWMA drwy'r corff cymeradwyo SuDS. Gallai hyn olygu bod y ddau gorff yn edrych ar yr un system ddraenio o safbwynt rheolau gwahanol."*

<u>Awdurdodau Lleol</u>

Cafwyd ateb manwl iawn i'r cwestiwn hwn gan y sector hwn.

Roedd yr amserlen ar gyfer asesu ceisiadau yn thema gyffredin. Roedd yr ymatebion hyn hefyd wedi mynegi pryderon am yr amser a ganiatawyd ar gyfer trosglwyddo i'r drefn newydd, y costau sefydlu cysylltiedig, yr adnoddau a'r arbenigedd perthnasol sydd ar gael. Roedd sawl un wedi gofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru tuag at sefydlu'r cyrff cymeradwyo SuDS.

Rhoddwyd sylw i faterion yn ymwneud ag esemptio datblygiadau bach (ee tai annedd sengl), o ran yr effeithiau cronnus os ydynt wedi'u heithrio a'r posibilrwydd y gwneir datblygiadau fesul cam yn fwriadol er mwyn ceisio osgoi'r gofyniad.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am eglurhad pellach am y gofynion dilysu ar gyfer cais oherwydd eu bod yn poeni y gallai hyn arwain at orfod ailgyflwyno

ac oedi. Nododd rhai ymatebion fod diffyg eglurder ynghylch y cyfrifoldebau penodol a’r rolau gorfodi sydd wedi’u pennu i Awdurdodau Cynllunio Lleol ac i Gyrff Cymeradwyo SuDS.

Gofynnwyd hefyd am eglurder ar y meysydd penodol hyn:

- Beth yw’r berthynas rhwng rôl cymeradwyo’r corff cymeradwyo SuDS a’r angen am Asesiad o Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn datblygiad?
- Rôl ymgyngoreion statudol ac ymgyngoreion treftadaeth, megis swyddogion cadwraeth mewnol ac ymddiriedolaethau archeolegol
- Gan y byddai’n rhaid cael SuDS ar gyfer pob datblygiad newydd, a fyddai hynny’n golygu na ellid ei hawlio fel cost datblygu anarferol at ddibenion hyfywedd?
- Cynigion draenio sy’n gwrth-ddweud ei gilydd yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy'

*“ …. yn gweithredu fel awdurdod priffyrdd…. nid oes gan ddatblygwr preifat hawl cyfreithiol i… gysylltu ei ddŵr wyneb â system ddraenio’r brifford…mae’r canllawiau a chyfarwyddyd atodlen 3 yn hyn o beth, sy’n nodi’r cyfleoedd i rwydweithiau priffyrdd sy’n gwasanaethu cysylltiadau 3ydd parti (sy’n gweithredu’n anghynaliadwy), yn cael eu cyfleu i’r ymgymerwr carthffosiaeth o dan adran 104 o’r Ddeddf Diwydiant Dŵr lle mae eu gallu nhw i godi tâl am ddefnyddio’r rhwydwaith yn galluogi cynnal a chadw’r rhwydwaith mewn modd sy’n ariannol gynaliadwy.” Awdurdod Lleol*

*“Ni roddwyd sylw digonol yn yr ymgynghoriad i’r goblygiadau o ran adnoddau mewn proses gymeradwyo dechnegol, yn cynnwys y prosesau gweinyddol. Bydd rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau ariannol er mwyn sicrhau adnoddau ar gyfer hyn.” Awdurdod Lleol*

<u>Sectorau eraill</u>

Roedd peirianwyr sifil wedi awgrymu gwelliannau i’r rheoliadau ac i’r safonau o ran cynaeafu dŵr, palmentydd hydraidd, ystyr systemau draenio cynaliadwy, ac eithriadau. Pwysleisiwyd hefyd pa mor bwysig oedd cael dull cyd-gysylltiedig ar draws polisïau Llywodraeth Cymru ym meysydd cynllunio a rheoli perygl llifogydd. Roedd un ymateb yn gofyn am eithrio gwaith cynnal a chadw camlesi.

Dyma rai cwestiynau a sylwadau pellach a godwyd:

- A fydd draenio’n dal i fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio?
- A ddylid cael lefel sylfaenol o gymhwysedd er mwyn cyflwyno cais SuDS, ar y sail bod meini prawf cymhwysedd tebyg yn cael eu defnyddio mewn arolygon ac archwiliadau amgylcheddol?

- A fydd ailddefnyddio dŵr glaw yn cael ei drafod yn ‘ddigonol’ yn yr hyfforddiant?

*“Dylid llunio cynlluniau a chynigion i ddelio â risg llifogydd dŵr wyneb ochr yn ochr â diweddaru TAN 15…." Corff proffesiynol*

*“Gellid dadlau y bydd angen mwy o gymorth gyda SuDS ar ddatblygwyr llai ac mae’n bosib y bydd ganddyn nhw fwy i golli os ydynt yn cyflwyno cais nad yw’n bodloni meini prawf SuDS. Felly mae trafodaethau cyn ymgeisio yn bwysig…”*

*“Mae safonau cenedlaethol anstatudol Llywodraeth Cymru yn rhwydd iawn i’w defnyddio ac yn cysylltu â chanllawiau CIRIA lle bo hynny’’n briodol, felly byddem yn fodlon iddynt gael statws statudol.” Cwmni Cyfleustodau*

*“Nid yw’n glir sut bydd cyrff cymeradwyo SuDS yn sicrhau bod y SuDS hynny sydd heb gael eu mabwysiadu ganddynt yn cydymffurfio â’r safonau SuDS cenedlaethol…Byddai’n dda cael canllawiau i bennu sut y gellir gweithredu hyn.” Corff anllywodraethol amgylcheddol*

*“Un pryder… yn ymwneud â systemau draenio mae datblygwyr yn dewis peidio â’u trosglwyddo i’r corff cymeradwyo SuDS ar gyfer eu cynnal a’u cadw yn y dyfodol, ond yn hytrach yn penderfynu defnyddio cwmnïau rheoli. Mae angen gwarchodaeth ddigonol i ddiogelu preswylwyr petai’r cwmni rheoli’n mynd i’r wal neu’n methu â chynnal a chadw’r systemau draenio mewn unrhyw ffordd,” Cwmni cyfleustodau*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roeddem yn disgwyl ystod eang o sylwadau oherwydd natur pen-agored y cwestiwn hwn. Roedd rhai’n ategu’r ymatebion a wnaed i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad. Bydd sawl ymateb a oedd yn gofyn am eglurder ar agweddau penodol o weithredu Atodlen 3 yn cael eu hystyried wrth i ni adolygu ein Canllawiau.

Roedd cynrychiolwyr o’r sector amaethyddol yn awgrymu y dylai eu gweithgareddau nhw gael eu heithrio o’r gofyniad am gymeradwyaeth yn y Ddeddf. Fodd bynnag, ni chredwn fod esemptiad penodol yn briodol, oherwydd byddai effaith datblygiad amaethyddol yn cael ei drin yn wahanol i adeiladau diwydiannol tebyg eraill. Hefyd, roedd sawl ymateb i’r ymgynghoriad wedi mynegi barn y dylid cael cyn lleied o esemptiadau â phosibl.

Credwn fod ein dyddiad arfaethedig ar gyfer cychwyn y ddyletswydd am gymeradwyaeth yn caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer y broses newydd hon. Rydym yn gweithio’n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gael help gyda hyfforddiant ac adnoddau, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cael dull cyson ar draws Cymru a’r manteision wrth i awdurdodau lleol gydweithio lle bo hynny’n bosibl.

## Crynodeb o weithdai'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd gweithdai ymgynghori wedi'u hwyluso yng Nghaerfyrddin, Cyffordd Llandudno a Chaerdydd ddechrau mis Chwefror 2018. Daeth tua 120 o bobl i'r sesiynau yn cynrychioli llywodraeth leol (60%), peirianwyr sifil ac ymgynghorwyr, y diwydiant dŵr, y sector adeiladu, ymgynghorwyr dylunio/cynllunio, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a rheoleiddwyr. Nid oedd neb yn bresennol o'r diwydiant amaethyddol, er eu bod wedi cael gwahoddiad.

Er gwaethaf y camsyniadau am Atodlen 3, roedd pawb yn sylweddoli y byddai'r prosesau cymeradwyo a mabwysiadu newydd ar gyfer SuDS yn newid natur datblygiadau.

Gwnaethom ofyn cwestiynau penodol i weld sut roedd y mynychwyr yn paratoi ar gyfer y broses newydd, a pha ganllawiau, cymorth technegol, gwybodaeth a hyfforddiant oedd eu hangen arnynt.  Gwnaethom hefyd holi am rôl ymgyngoreion statudol, sut gellid chwalu'r ffiniau rhwng adrannau, a manteision cydweithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Cawsom ystod eang o adborth gan fynychwyr a gwnaethpwyd nodiadau manwl. Caiff y rhain eu cyhoeddi'n llawn fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad. Dyma rai themâu cyffredin:

- Costau i awdurdodau lleol ac i ddatblygwyr
- Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth am y broses newydd
- Hyfforddiant a'r angen i gael staff medrus
- Cysondeb ar draws y cyrff cymeradwyo SuDS
- Eglurhad o'r diffiniadau a'r termau technegol a chyfreithiol
- Delio ag adeiladau sengl ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu
- Cysylltu â'r broses gynllunio a'r angen i bwysleisio bod cymeradwyaeth corff cymeradwyo SuDS yn broses dechnegol ar wahân i'r broses gynllunio.
- Gofynion cyrff cymeradwyo SuDS am wybodaeth mewn ceisiadau a pha mor bwysig yw cael trafodaethau cynnar rhwng datblygwyr, cynllunwyr, cyrff cymeradwyo SuDS ac ymgyngoreion statudol.

I Lywodraeth Cymru, roedd y gweithdai'n gyfle i gael dealltwriaeth fanwl o'r heriau y bydd pob parti yn eu hwynebu wrth roi'r broses hon ar waith. Mae'r sylwadau a gafwyd wedi bod yn werthfawr, yn enwedig o'u darllen ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Maent wedi helpu i siapio ein meddylfryd ar gyfer gweithredu Atodlen 3. Mae adroddiad llawn o'r gweithdai ar gael ar gais.

Gwnaethom ofyn i'r mynychwyr lenwi holiadur ym mhob gweithdy i gael eu hadborth. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol ac roedd y mynychwyr o'r farn eu bod yn ddefnyddiol.

## Y casgliadau a'r camau nesaf

Daeth pedwar deg dau o ymatebion i law, gyda'r rhan fwyaf ohonynt gan awdurdodau lleol. Cafwyd ymatebion hefyd gan gyrff masnach, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, cyrff proffesiynol a nifer o unigolion. Hefyd, ymgysylltwyd yn uniongyrchol â dros 120 o unigolion drwy gyfres o weithdai wedi'u hwyluso.

Roedd mwyafrif yr ymatebion wedi rhoi atebion manwl i'r cwestiynau ac mae'r rheini wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddiwygio'r offerynnau statudol terfynol, y canllawiau a'r Safonau SuDS.

Ein bwriad yn awr yw cyflwyno'r offerynnau statudol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gerbron y Cynulliad ddiwedd mis Mai 2018. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, byddant yn dod i rym ddiwedd mis Mehefin. Ar yr un pryd, byddwn yn cyflwyno Gorchymyn Cychwyn a fydd yn golygu bod y broses gymeradwyo SuDS yn dod i rym ddydd Llun 7 Ionawr 2019.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, caiff y Safonau SuDS eu cyhoeddi fel Safonau Statudol o dan Atodlen 3 y Ddeddf ddiwedd mis Mehefin 2018. Caiff Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Atodlen 3, "Draenio Cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru" eu cyhoeddi yr un pryd. Bydd hon yn ddogfen "fyw" a gaiff ei diweddaru yn ôl yr angen wrth fagu mwy o brofiad.

Bydd yn bwysig adolygu'r cynnydd wrth weithredu'r system gymeradwyo newydd ar gyfer draenio er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio mor effeithiol â phosibl. Rydym yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol, ymgyngoreion statudol a datblygwyr er mwyn casglu tystiolaeth dros y ddwy flynedd ar ôl dechrau gweithredu'r system. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i bwyso a mesur unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r offerynnau statudol, yn benodol y strwythur ffioedd a'r amserlenni ar gyfer cymeradwyo ac ymgynghori. I helpu gyda hyn, rydym yn bwriadu gofyn am gymorth parhaus y Grŵp Cynghori SuDS a sefydlwyd i weithredu Atodlen 3.